



Cyfarfod

BWRDD PENSIWN

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD LLUN, 9FED CHWEFROR, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 03/02/2026)

BWRDD PENSIWN

AELODAETH

CYNRYCHIOLWYR CYFLOGWR

Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy)

Edward Michael (Cyngor Sir Ynys Môn)

Roland Thomas (Cyngor Gwynedd)

CYNRYCHIOLWYR AELODAU

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Sir Ynys Môn)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Anthony Deakin (wedi ymddeol - Cartrefi Conwy)

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd Tachwedd 3ydd 2025 fel rhai cywir

5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

10 - 16

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 24ain o Dachwedd 2025

6. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

17 - 62

I ystyried a nodi'r wybodaeth.

7. PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN HYD AT 30 MEDI 2025

63 - 68

I ystyried yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

8. ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA

69 - 75

I nodi'r adroddiad cynnydd ac amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf.

9. CYLLIDEB 2026/27

76 - 78

I nodi cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27.

10. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

79 - 142

I ystyried ac adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido a'r polisïau cysylltiedig.

11. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LLYWODRAETHOL GWASANAETH CYHOEDDUS 2025/26

143 - 163

I ystyried yr arolwg a chynnig adborth gan y Bwrdd er mwyn cwblhau'r arolwg

BWRDD PENSIWN 03-11-25

Yn bresennol:

Anthony Deakin, Eifion Jones ac Osian Richards (Cynrychiolwyr Aelodau)

Sioned Parry, Roland Thomas (Cynrychiolwyr Cyflogwyr)

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ned Michael a'r Cyng. Elin Hywel (Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11eg Gorffennaf 2025 fel rhai cywir.

5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 15fed o Fedi 2025.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol (drafft) gan y Rheolwr Buddsoddi. Eglurwyd bod yr adroddiad yn darparu manylion am weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ac wedi ei gwblhau yn unol â chanllawiau statudol. Tynnwyd sylw at newidiadau yng nghofynion y Bwrdd Cyngori Cynllun (Scheme Advisory Board) i adnabod a chyflwyno'r wybodaeth drwy dri chategori - rhaid (must), dylid (should) ac efallai (may). Sicrhawyd bod popeth sydd yn cael ei adnabod fel 'rhaid' a 'dylid' wedi cael ei gynnwys, oni bai nad oedd y wybodaeth ar gael. Yn sgil hynny eglurwyd bod yr adroddiad blynyddol wedi cynnyddu mewn maint gan ei fod yn cynnwys adroddiadau blynyddol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Pensiynau, gwybodaeth bellach am ystadegau gweinyddu, a gwybodaeth bellach am pwlio.

Adroddwyd bod yr adroddiad yn y broses o gael ei adolygu gan Archwilio Cymru gyda bwriad o'i gyflwyno gyda'r cyfrifon terfynol yng nghyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn ar y 24ain o Dachwedd 2025.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod y sefyllfa yn un iach
- Yn llongyfarch y tîm ar eu gwaith da
- Bod y sefyllfa yn dystiolaeth o'r llywodraethu da mewn hinsawdd economi heriol
- Bod y sefyllfa wedi gwella yn sylweddol dros y blynyddoedd - angen ceisio osgoi sefyllfa o ostwng a chodi cyfraniadau
- Bod yr adroddiad yn un trylwyr ac yn hawdd i'w ddarllen
- Yn derbyn nad oedd angen cynnwys gwybodaeth categori 'efallai' (may)

Mewn ymateb i sylw bod gostyngiadau i'r cyflogwyr yn sgil prisiad ac os oedd byffer wedi ei osod, nodwyd bod y cyflogwyr mwyaf, o ystyried bod y gronfa wedi ei gyllido 166%, wedi gosod mecanwaith sefydlogi a bod cyflogwyr eraill gyda bwriad o wneud rhywbeth tebyg.

Mewn ymateb i gwestiwn bod cyfeiriad y Gronfa at gyrraedd targed sero net yn 2050, ond bod Strategaeth Hinsawdd y Cyngor wedi nodi targed sero net erbyn 2030 a pam y gwrthdaro, nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda swyddogion, ond bod targed y Gronfa Bensiwn yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl gydag ymrwymiad i gynnal adolygiadau i geisio gostwng y dyddiad. Ategwyd nad oedd 2030 yn opsiwn i'r Gronfa.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol os oedd ymrwymiad i gyrraedd y targed 2050 yn gynt ac os oedd ystyriaeth i darged interim, nodwyd bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar yr amcanion strategol gyda Hymans yn edrych ar yr asedau i geisio cwrdd â'r targed yn gynharach. Ategwyd y byddai'n debygol y bydd addasiadau pellach yn dilyn sefydlu cwmni IMCo fydd yn cymryd drosodd yr agweddau llywodraethiant, cynghori a sicrhau gwerth am arian. Ategwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r awgrym i ystyried targed interim gan fod holl aelodau'r pwl gyda'r un agwedd tuag at gyrraedd at y targed sero net yn gynt.

Mewn ymateb i sylw bod cofnod o ddatblygiad aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ac os dylid gweithredu cofnod tebyg ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn, nodwyd bod cynllun hyfforddiant mewn lle ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn a bod y Rheolwr Buddsoddi yn cadw cofnod o'r datblygiadau hynny. Nodwyd bod cofnod aelodau'r Pwyllgor yn un mwy ffurfiol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag aelodaeth y Gronfa a'r gofod rhwng cyfranwyr a nifer pensiynwyr a delir, ac os oedd gwaith modelu yn cael ei wneud ar y tueddiadau hyn, nodwyd bod Hymans yn ymwybodol o'r tueddiadau a'u bod yn ystyried effaith hyn i'r dyfodol.

Wrth gyfeirio at y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), holiwyd beth oedd y rheswm dros 'beidio adrodd', ac os oedd amserlen / targed i 'adrodd', nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i gwrdd â'r gofynion. Amlygwyd nad oedd dull adrodd perfformiad Gwynedd yn dilyn proses o gwblhau DPA (Gwynedd yn adrodd ar welliant parhaus) ac felly bod angen addasu'r dasg i gyfarch y gofynion. Ategwyd bod tasgau wedi eu gosod mewn ffordd benodol, ond nad oedd Gwynedd yn cofnodi yn yr un modd â gofynion CIPFA am wybodaeth. Cadarnhawyd bod y perfformiad yn dda ac yn cyfarch y gofynion, ond bod angen addasu'r system i amlygu'r perfformiad yn well.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â 'gwybodaeth ddim ar gael', (DPA Cyfathrebu) nodwyd mai enghraifft o hyn fyddai defnydd system ffôn newydd y Cyngor sydd heb orffen cael ei sefydlu. Bydd y wybodaeth yn fwy cyflawn ar gyfer flwyddyn nesaf.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

7. CYNHADLEDD BUDDSODDI A PHENSIYNAU LGC

Cafwyd diweddariad ar lafar gan Mr Anthony Deakin oedd wedi mynychu'r gynhadledd ym mis Medi 2025 ar ran y Bwrdd. Eglurodd bod y gynhadledd yn rhoi cyfle i fynychwyr rwydweithio, ehangu gwybodaeth a chadw i fyny â gwaith y sector.

Diolchwyd am y wybodaeth

8. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod a diweddariadau ar amrywiol brosiectau:

- Gweithredu rhwymedigaeth McCloud yn dilyn dyfarniad yn y Goruchaf Lys
- Gwaith yn ymwneud â phrasiad actiwaraid 2025 oedd yn cynnwys cynnal Fforwm Cyflogwyr i rannu canlyniadau prasiad gyda'r cyflogwyr. Nodwyd bydd y cyfraniadau newydd yn cael eu cadarnhau yn ffurfiol ddiwedd mis Mawrth 2026.
- Gwaith yn ymwneud â chysylltu gydag ecosystem Dashfwrdd Pensiwn Cenedlaethol erbyn 31/10/25
- Paratoi ymateb (ar sail Cymru gyfan) i ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar welliannau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fydd yn moderneiddio'r cynllun, gwella tegwch a chryfhau amddiffyniadau aelodau hirdymor
- Bod gwaith i sicrhau bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bodloni gofynion statudol drwy gyhoeddi Datganiadau Buddion Blyneddol wedi ei gwblhau ddiwedd Gorffennaf (cyn y diwrnod cau). Cyfeiriwyd hefyd at gyflwyniad / rhith ffurf ar y porth Fy Mhensiwn ar Lein sydd yn cefnogi aelodau i ddeall y datganiadau yn well.
- Bod ansawdd data yn parhau yn flaenoriaeth i'r Gronfa a datblygiadau parhaus yn cael eu gweithredu i wella'r ansawdd ymhellach. Cyfeiriwyd at esiampl lle mae'r Gronfa yn cydweithio gyda gwasanaeth olrhain proffesiynol i geisio dod o hyd i fanylion cyswllt teulu aelodau sydd wedi marw neu sydd yn ymddangos fel 'cyfeiriad sydd wedi mynd i ffwrdd'
- Bod cyfathrebu gydag aelodau hefyd yn parhau yn flaenoriaeth – cylchlythyr wedi ei ddosbarthu gyda'r Datganiadau Buddion Blyneddol 2025. Nodwyd bod gwaith yn parhau i ail ddylunio gwefan y Gronfa
- Eglurwyd, yn sgil newidiadau mewnol yn cael ei gweithredu i dasgau nad oedd data perfformiad cynhwysfawr ar gael, bod y Gronfa yn rhoi sicrwydd nad oedd unrhyw arwydd bod perfformiad y gwasanaeth yn dirywio, ond bod bwriad cyflwyno'r wybodaeth pan fydd y gweithdrefnau diwygiedig wedi eu cwblhau.
- Bod gwaith yn parhau i sicrhau bod polisïau a chydymffurfiaeth yn eu lle mewn ymateb i ofynion Llywodraethu Da

Cyfeiriwyd at lwyddiant parhaus 'Fy Mhensiwn Ar-lein' gan nodi bod aelodaeth y porth yn parhau i dyfu'n raddol o fis i fis. Adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi Heywood i ddatblygu fersiwn Gymraeg a bod y fersiwn yma i'w chyflwyno i holl gronfeydd CPLIL Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Tynnwyd sylw at yr Arolwg Boddhad Gwasanaeth sy'n cael ei anfon at Aelodau ar ddiwedd prosesau allweddol, megis ymddeoliadau a thaliadau ad-dalu, i gasglu barn

ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd. Adroddwyd bod 58 o aelodau wedi cymryd rhan yn yr arolwg rhwng Ebrill 2025 – Medi 2025 gyda'r canlyniad yn galonogol iawn (95.13% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu gytuno bod yr ansawdd o safon uchel ac a 97.26% yn cytuno'n gryf neu gytuno bod perfformiad staff yn bodloni safon uchel).

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Llongyfarch y tîm ar eu gwaith a'u hymrwymiad
- Bod lot o waith wedi ei gwblhau, a'r targedau yn cael eu cyrraedd
- Bod cyflwyniad y 'rhith ffurf' i egluro datganiadau buddion yn ychwanegiad positif
- Yn canmol y gwaith i sicrhau ansawdd data – y safon yn bwysig i drefn y prisiad
- Awgrym i anfon y Datganiad Buddion i staff i wirio eu manylion personol – buasai hyn yn sicrhau cywirdeb ac yn ymarfer i staff gymryd sylw o'r datganiadau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y byddai'r Uned yn mynd ati i geisio cael mwy o Aelodau i danysgrifio i'r safle we a sut bydd modd sicrhau na fydd trigolion hŷn yn cael eu hanwybyddu, nodwyd bod y tîm yn parhau i annog staff i ddefnyddio'r wefan, a bod datganiadau ar slipiau cyflog papur yn cyfeirio at y wybodaeth sydd i'w gael o ddefnyddio'r wefan.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r tebygolrwydd y byddai llai o ymholiadau i staff fyddai efallai yn arwain at fygythiadau i swyddi oherwydd cynnydd mewn defnydd o dechnoleg, nodwyd bod llwyth gwaith, ar hyn o bryd, wedi cynyddu gyda mwy o ofynion am wybodaeth ynglŷn â defnydd o'r porth ac ymholiadau cyffredinol. Ategwyd bod problemau gydag e-byst gan yr Uned yn mynd i 'post sothach' Aelodau gyda 'yahoo' ac 'AOL' ac er bod ymholiadau wedi eu gwneud gyda'r cwmnïau, nad oedd datrysiad posib.

Mewn ymateb i gwestiwn os oes nifer digonol o staff i gwblhau'r elfennau llywodraethiant nodwyd bod nifer staff ar gyfer yr elfennau gweinyddol yn ddigonol ond bod posib ystyried cefnogaeth bellach i'r elfen llywodraethu sylfaenol

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth

9. CYNLLUN GWELLA DATA

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn manylu ar y mathau allweddol o ddata a gynhelir gan y Gronfa gan amlygu pwysigrwydd cywirdeb data a dulliau clir a strwythuredig o wella ansawdd data. Tynnwyd sylw at amcanion gwella data'r Gronfa ynghyd a'r mathau o ddata sydd angen eu cwblhau i ddiogelu hawliau Aelodau, cefnogi effeithlonrwydd gweithredol ac atgyfnerthu ymddiriedaeth llywodraethu'r Gronfa.

Amlygwyd bod dau gategori data - data cyffredin a data penodol i'r cynllun gyda chmau targedu a dulliau gweithredu wedi eu gosod ar gyfer gwella ansawdd y ddau gategori. Tynnwyd sylw at ddefnydd y Gwasanaeth Orlhain proffesiynol i geisio lleihau achosion o'r nifer sydd yn ymddangos 'wedi symud' neu wybodaeth gyswllt wedi dyddio yng nghategori data cyffredin. Adroddwyd bod y gwasanaeth, er yn gostus, wedi cyflwyno canlyniadau da hyd yma a bod y nifer achosion yn lleihau.

Ystyriwyd trwy ddilyn y Cynllun Gwella Data byddai'r Gronfa yn anelu at wella'r data yn sylweddol gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a gwella profiadau cyffredinol Aelodau a chyflogwyr.

Diolchwyd am y wybodaeth

Mewn ymateb i sylw bod y Gronfa yn ddibynnol ar Aelodau i ddiweddarau eu manylion cyswllt a pha mor bell o ddefnyddio DA (deallusrwydd artiffisial) fydd yr uned weinyddu o fedru gwneud hyn ac oes enghreifftiau y gellid eu treialu, nodwyd nad oedd ystyriaeth wedi ei roi i hyn a'r un esiampl sydd o'r defnydd posib yw cyfarch llythyrau. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglyn a chynnydd mewn defnydd DA ac os oedd gan y Gronfa bolisi penodol, nodwyd bod gan Cyngor Gwynedd bolisi DA ond nad oedd gan y Gronfa bolisi penodol ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00 a daeth i ben am 14:20

PWYLLGOR PENSIYNAU 24-11-25

Presenoldeb: Cynghorydd Elin Hywel (Cadeirydd)
Cynghorydd John Pughe Roberts (Is gadeirydd)

Cynghorwyr:

Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Geraint Parry, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd

Osian Roberts (Archwilio Cymru)
Kenny Taylor (Hymans Robertson)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ned Michael (Aelod Bwrdd Pensiwn i arsylwi) – nid oedd yn gallu ymuno oherwydd problemau technegol.

Croesawyd y Cyng Geraint Parry (Plaid Cymru) fel aelod newydd i'r Pwyllgor

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2025 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith PPC ynghyd a phenderfyniadau cyfarfod mis Medi o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (corff sy'n gwneud penderfyniadau dros y Bartneriaeth gyda Chadeirydd pob cronfa yn eistedd arno).

Adroddwyd bod gwaith sefydlu'r Cwmni Buddsoddi WPP IMCo ar gyfer buddsoddiadau cronfeydd pensiwn LGPS yng Nghymru yn parhau fel maes blaenoriaeth a bod prif swyddog gweithredol bellach wedi cael ei benodi. Y cam nesaf fydd cofrestru'r cwmni gyda Cofrestr Gwasanaethau Ariannol (Financial Conduct Authority - FCA), penodi swyddogion pellach a ffurfio cytundebau. Mynegwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu (03-12-

25) i'r Aelodau dderbyn gwybodaeth bellach ar y datblygiadau a chael cyfle i ddysgu mwy am y cwmni a pha gytundebau fydd angen i'r Pwyllgor eu cymeradwyo. Anogwyd yr Aelodau i fynychu.

Cyflwynwyd diweddariad ar y materion arferol o adolygu'r cynllun busnes, polisïau a'r gofrestr risg. Cyfeiriwyd at y cynnydd y mae'r cronfeydd yng Nghymru wedi'i pwlio, gyda Gwynedd yr ail uchaf o'r wyth gronfa unigol wedi trosglwyddo 87% sy'n golygu bydd y broses o symud yr asedau i'r cwmni buddsoddi IMCo ychydig yn haws o gymharu â chronfeydd eraill.

Cyfeiriwyd at fanylder gwaith y gweithredwr dros y cyfnod ac at amodau'r farchnad oedd wedi cael eu monitro ganddynt. Tynnwyd sylw at ddadansoddiad a pherfformiad yr is gronfeydd a'r marchnadoedd preifat gan ategu bod y rhaglen buddsoddi eiddo wedi cael ei sefydlu ac eiddo presennol Gwynedd yn y broses o gael ei drosglwyddo i Cronfa DU, gan fuddsoddi ymhellach yng Nghronfa Impact Investing yn fuan ym mis Ionawr 2026.

Mynegwyd bod y cydbwyllgor wedi derbyn diweddariad ar gronfeydd isadeiledd gan GCM Grosvenor sydd yn buddsoddi mewn amryw o gynlluniau ledled Prydain.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw bod PPC yn parhau i gyfeirio at y prosiect fel Prosiect Snowdon Project ac nid Prosiect yr Wyddfa / Yr Wyddfa Project, nodwyd bod y sylw wedi cael ei gyflwyno i PPC, ac ar bob cyfle posib wedi hynny, y swyddogion wedi ceisio cyfleu'r enw cywir - angen parhau i bwysu ar PPC i gyfeirio at Prosiect Snowdon fel Prosiect yr Wyddfa.

Mewn ymateb i sylw bod Cronfa Clwyd wedi pwlio 32%, Powys 63% ac Abertawe 66% ac a fydd hyn yn debygol o greu problemau at gyrraedd y targed o 100% neu yn adlewyrchu yn wael ar PPC, nodwyd bod mesurau wedi eu rhoi mewn lle i ymateb i'r sefyllfa gyda Swyddog Delio ag Asedau wedi ei benodi i arwain y gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r effaith ar is gronfeydd ACS sydd yn dal cwmnïau Rwsiaidd a'r angen am wybodaeth ynglŷn â'r asedau hyn, nodwyd, er bod gwybodaeth am y buddsoddiadau yn newid yn ddyddiol, bod darn o waith wedi ei gomisiynu i ffurfioli datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd.

Yng nghyd-destun gosod targed / amcanion ar gyfer daliadau'r Cyngor ac os oedd bwriad eu cadw neu eu gwerthu, nodwyd nad oedd cynllun pendant mewn lle ond bod bwriad llunio Polisi Gwaharddiad i ymdrin â'r mater. Bydd datganiad gan PPC yn cael ei ddosbarthu yn fuan.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

Nodyn: Parhau i bwysu ar PPC i gyfeirio at Brosiect Snowdon fel Prosiect Yr Wyddfa

6. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2024/25 (ôl archwiliad), gan y Rheolwr Buddsoddi oedd yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2025. Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i gyfarfod Gorffennaf 2025 ac er nad oedd newidiadau arwyddocaol i'r ffigyrau craidd yn dilyn

archwiliad gan Archwilio Cymru, bod addasiad bychan i'r naratif yn y nodiadau, ac i niferoedd y pensynwyr.

Gwahoddwyd Osian Roberts (Archwilio Cymru) i gyflwyno adroddiad 'ISA260'. Adroddwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Eglurwyd na all archwilwyr fyth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir ond yn hytrach yn gweithio i lefel o 'berthnasedd' a bennwyd ar £32.364 miliwn ar gyfer archwiliad eleni. Cyfeiriwyd at y camddatganiad yn y cyfrifon gwreiddiol (Nodyn 1 Disgrifiad o'r Gronfa – and oedd ffigyrau aelodaeth yn cynnwys 183 o gynghorywr a oedd yn Aelodau o'r cynllun yn ystod y cyfnod.

Tynnwyd sylw at fformat newydd yr adroddiad a'r crynodeb allweddol sydd yn haws i'r darllenydd ei ddeall ynghyd a chanlyniadau'r risgiau a archwiliwyd.

Diolchwyd am yr adroddiadau.

Llongyfarchwyd Swyddogion Cyllid y Cyngor am baratoi'r holl wybodaeth ac i Archwilio Cymru am eu cefnogaeth. Nodwyd bod ansawdd y cyfrifon yn adlewyrchu gwaith da'r tîm.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chamddatganiad Nodyn 1, cadarnhawyd, er nad oedd yn cael effaith ar y ffigyrau terfynol, bod y wybodaeth wedi ei gywiro ac wedi ei gynnwys yn y fersiwn terfynol ar gyfer Cyfarfod Blyneddol y Gronfa Bensiwn.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn y wybodaeth**
- **Nodi adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru, a derbyn sylwadau'r archwilwyr**
- **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ôl-archwiliad ar gyfer 2024/25**
- **Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Swyddog.151 i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (yn electroneg)**

7. CYNADLEDDAU PENSIWN

Cyflwynwyd adroddiad yn rhestru dyddiadau cynadleddau pensiynau ar gyfer 2026. Nodwyd bod y cynadleddau yn rhoi cyfle i'r Aelodau ehangu eu gwybodaeth a thrafod materion cyfoes a bod y cynadleddau a gynigwyd yn seiliedig ar berthnasedd cynnwys hanesyddol y digwyddiadau. Trafodwyd y dyddiadau a bu i'r Aelodau ddatgan diddordeb yn y digwyddiadau hynny oedd yn gyfleus iddynt.

Gyda threfniadau mewn lle i'r Aelodau gyflwyno adborth ar lafar ar y gynhadledd a fynychwyd yn y pwyllgor dilynol, nodwyd bod bwriad i'r trefniant yma barhau.

PENDERFYNWYD

Derbyn rhestr dyddiadau cynadleddau 2026

8. RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad yn amlygu gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym Mawrth 2025 cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer y flwyddyn 2025/26 lle caniateir i arian y Gronfa Bensiwn cael ei gronni a'i gyd-fuddsoddi a llif arian cyffredinol y Cyngor. Nodwyd hefyd bod disgwyliad i'r Rheolwr Buddsoddi ddiweddarau'r

Pwyllgor ar y sefyllfa yn rheolaidd, gyda'r diweddariad yma yn edrych ar y cyfnod hyd at 30 o Fedi 2025.

Eglurwyd bod y cyfnod wedi bod yn un prysur iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Adroddwyd, yng nghyd-destun gweithgareddau buddsoddi, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Cronfeydd Marchnad Arian, Cronfeydd wedi'i pwlio, Awdurdodau Lleol a Swyddfa Rheoli Dyledion. Nodwyd bod y cronfeydd yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi eu gwneud ers nifer o flynyddoedd bellach.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfriad a dangosyddion, adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor - hynny yn newyddion da, ac yn dangos bod rheolaeth gadarn dros yr arian. Amlygwyd yn y cyfnod dan sylw, bod y Gronfa wedi buddsoddi ychydig yn uwch na'r lefel gymeradwy ar gyfer y banciau a chronfeydd marchnad arian a hynny oherwydd lefel uchel o arian, ac opsiynau yn brin. Nodwyd bod camau wedi eu cymryd i sicrhau na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol drwy agor mwy o gyfrifon i wasgaru'r arian. Yn ychwanegol, amlygwyd bod y Cyngor hefyd wedi cydymffurfio yn llawn gyda dangosyddion darbodus Rheolaeth Trysorlys.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2024/25

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad yn darparu manylion am weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ac wedi ei gwblhau yn unol â chanllawiau statudol. Tynnwyd sylw at newidiadau yng ngofynion y Bwrdd Cynghori Cynllun (Scheme Advisory Board) i adnabod a chyflwyno'r wybodaeth drwy dri chategori - rhaid (must), dylid (should) ac efallai (may). Sicrhawyd bod popeth sydd yn cael ei adnabod fel 'rhaid' a 'dylid' wedi cael ei gynnwys, oni bai nad oedd y wybodaeth ar gael. Yn sgil hynny eglurwyd bod yr adroddiad blynyddol wedi cynyddu mewn maint gan ei fod yn cynnwys adroddiadau blynyddol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Pensiynau, gwybodaeth bellach am ystadegau gweinyddu, gwaith pwlio, swyddogaethau craidd y Pwyllgor, hyfforddiant, cynllun gwaith, blaenoriaethau a chrynodeb o'r pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

Adroddwyd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei adolygu gan Archwilio Cymru gydag un mân addasiad i'r fersiwn drafft cyn ei gyhoeddi ar y wefan (cyn y dyddiad statudol - 1af o Ragfyr 2025).

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r staff oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r gwaith.

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2024/25

10. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod a diweddariadau ar amrywiol brosiectau:

- Gweithredu rhwymedigaeth McCloud yn dilyn dyfarniad yn y Goruchaf Lys

- Gwaith yn ymwneud â phrasiad actiwaraid 2025 oedd yn cynnwys cynnal Fforwm Cyflogwyr i rannu canlyniadau prasiad gyda'r cyflogwyr. Nodwyd bydd y cyfraniadau newydd yn cael eu cadarnhau yn ffurfiol ddiwedd mis Mawrth 2026.
- Gwaith yn ymwneud â chysylltu gydag ecosystem Dashfwrdd Pensiwn Cenedlaethol erbyn 31/10/25.
- Paratoi ymateb (ar sail Cymru gyfan) i ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar welliannau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fydd yn moderneiddio'r cynllun, gwella tegwch a chryfhau amddiffyniadau aelodau hirdymor.
- Bod gwaith i sicrhau bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bodloni gofynion statudol drwy gyhoeddi Datganiadau Buddion Blyneddol wedi ei gwblhau ddiwedd Gorffennaf (cyn y diwrnod cau). Cyfeiriwyd hefyd at gyflwyniad / rhith ffurf ar y porth Fy Mhensiwn ar Lein sydd yn cefnogi aelodau i ddeall y datganiadau yn well.
- Bod ansawdd data yn parhau yn flaenoriaeth i'r Gronfa a datblygiadau parhaus yn cael eu gweithredu i wella'r ansawdd ymhellach. Cyfeiriwyd at esiampl lle mae'r Gronfa yn cydweithio gyda gwasanaeth olrhain proffesiynol i geisio dod o hyd i fanylion cyswllt teulu aelodau sydd wedi marw neu sydd yn ymddangos fel 'cyfeiriad sydd wedi mynd i ffwrdd'.
- Bod cyfathrebu gydag aelodau hefyd yn parhau yn flaenoriaeth – cylchlythyr wedi ei ddosbarthu gyda'r Datganiadau Buddion Blyneddol 2025. Nodwyd bod gwaith yn parhau i ail ddylunio gwefan y Gronfa.
- Eglurwyd, yn sgil newidiadau mewnol yn cael ei gweithredu i dasgau nad oedd data perfformiad cynhwysfawr ar gael, bod y Gronfa yn rhoi sicrwydd nad oedd unrhyw arwydd bod perfformiad y gwasanaeth yn dirywio, ond bod bwriad cyflwyno'r wybodaeth pan fydd y gweithdrefnau diwygiedig wedi eu cwblhau.
- Bod gwaith yn parhau i sicrhau bod polisïau a chydymffurfiaeth yn eu lle mewn ymateb i ofynion Llywodraethu Da

Cyfeiriwyd at lwyddiant parhaus 'Fy Mhensiwn Ar-lein' gan nodi bod aelodaeth y porth yn parhau i dyfu'n raddol o fis i fis. Adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi Heywood i ddatblygu fersiwn Gymraeg a bod y fersiwn yma i'w chyflwyno i holl gronfeydd CPLIL Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Tynnwyd sylw at yr Arolwg Boddhad Gwasanaeth sy'n cael ei anfon at Aelodau ar ddiwedd prosesau allweddol, megis ymddeoliadau a thaliadau ad-dalu, i gasglu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd. Adroddwyd bod 58 o aelodau wedi cymryd rhan yn yr arolwg rhwng Ebrill 2025 – Medi 2025 gyda'r canlyniad yn galonogol iawn (95.13% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu gytuno bod yr ansawdd o safon uchel ac a 97.26% yn cytuno'n gryf neu gytuno bod perfformiad staff yn bodloni safon uchel).

Diolchwyd am yr adroddiad. Nodwyd bod llwyddiannau cwblhau gwaith o fewn amserlen benodol yn rhoi hyder i'r Gronfa bod swyddogion yn gweithredu yn effeithiol a safonol. Yr adroddiad yn amlygu bod llawer o waith wedi ei gwblhau mewn cyfnod heriol.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

11. CYNLLUN GWELLA DATA

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn manylu ar y mathau allweddol o ddata a gynhelir gan y Gronfa gan amlygu pwysigrwydd cywirdeb data a dulliau clir a strwythuredig o wella ansawdd data. Tynnwyd sylw at amcanion gwella data'r Gronfa ynghyd a'r mathau o ddata sydd angen eu cwblhau i ddiogelu hawliau Aelodau, cefnogi effeithlonrwydd gweithredol ac atgyfnerthu ymddiriedaeth llywodraethu'r Gronfa.

Amlygwyd bod dau gategori data - data cyffredin a data penodol i'r cynllun gyda chamau targedu a dulliau gweithredu wedi eu gosod ar gyfer gwella ansawdd y ddau gategori.

Tynnwyd sylw at ddefnydd y Gwasanaeth Orlhain proffesiynol i geisio lleihau achosion o'r nifer sydd yn ymddangos 'wedi symud' neu wybodaeth gyswllt wedi dyddio yng nghategori data cyffredin. Adroddwyd bod y gwasanaeth, er yn gostus, wedi cyflwyno canlyniadau da hyd yma a bod y nifer achosion yn lleihau.

Ystyriwyd trwy ddilyn y Cynllun Gwella Data byddai'r Gronfa yn anelu at wella'r data yn sylweddol gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a gwella profiadau cyffredinol Aelodau a chyflogwyr.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnydd cyfeiriadau E-byst a rhifau ffôn, nodwyd yn hanesyddol nad oedd y wybodaeth yma yn cael ei gasglu, ond bellach yn rhan o'r broses

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

13. ADOLYGIAD O DDYRANIAD ASEDAU STRATEGOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yn cynnig dyraniad strategol newydd i asedau'r Gronfa yn dilyn canlyniad prisiad tair blynedd 2025 ac argymhellion gan Hymans Robertson (ymgynghorwyr y Gronfa). Mynegwyd mai Dyrannu Asedau Strategol yw'r penderfyniad pwysicaf ar gyfer unrhyw Gronfa Bensiwn gan ategu nad oes unrhyw ffordd gywir nac anghywir o benderfynu ar y Dyraniad Asedau Strategol ac mai mater o ddod o hyd i'r ateb gorau i gyfyngiadau a chyfleoedd ydoedd.

Cynhaliwyd adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi gan Hymans Robertson a croesawyd Kenny Taylor, ymgynghorydd o'r cwmni i gyflwyno canlyniadau'r adolygiad ac argymhellion i'r Pwyllgor eu hystyried.

Diolchwyd am y cyflwyniad a'r adroddiad

Trafodwyd yr asedau strategol arfaethedig

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**

- **Cymeradwyo dyraniad asedau strategol arfaethedig y Gronfa ac argymhellion adroddiad gweithredu Hymans Robertson**

14. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01-04-2025 – 31-06-25

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn gyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn ar faterion buddsoddi cyfrifol. Cyfeiriwyd at y meysydd oedd wedi cael sylw Robeco yn ystod y chwarter dan sylw a'r wybodaeth yn cynnwys manylion am y nifer gweithgareddau a'r ymgysylltu a gwblhawyd oedd yn cynnwys cwmnïau mawr gyda phwysigrwydd rhyngwladol. Nodwyd hefyd mai thema ymgysylltu'r chwarter dan sylw oedd Cyflymaid i Sero-Dagoedwigo (Deforestation).

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dadfuddsoddi, nodwyd bod PPC wedi cyhoeddi datganiad ar eu gwefan (17 Tachwedd 2025) sydd yn cyfarch eu safbwynt ar waharddiadau a dadfuddsoddi.

Awgrymwyd yn hytrach na nodi 'wedi cau' (closed) fel dangosydd cynnydd yn eu proses ymgysylltu, byddai 'ymgysylltu pellach' yn derm mwy cadarnhaol.

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben 12:00

CYFARFOD	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD	9 CHWEFROR 2026
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	I dderbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMHELLIAD	DERBYN A NODI'R WYBODAETH
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Dyma adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd Pensiwn ar y gwaith a wnaed gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i sefydlu ers peth amser, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau rheoledig FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau rheoli buddsoddiadau i'r PPC ar yr holl asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r ymgynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i'r PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymïadau stiwardiaeth.

2. CYFARFOD YMGYSYLLTU CADEIRYDDION BWRDD PENSIWN

Mae Cadeiryddion y Byrddau Pensiwn yn cyfarfod pob 6 mis, ac fe wnaethant gyfarfod yn ffurfiol ddiwethaf ar 29 Hydref 2025. Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

Mae Prosiect yr Wyddfa yn datblygu'n gyflym gyda'r WPP IM Co bellach wedi'i ymgorffori gyda Rob Lamb wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gweithredol a bwrdd trosiannol wedi'i benodi. Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio cynllun busnes rheoleiddiol a recriwtio rolau gweithredol. Mae'r cytundeb cyfranddalwyr wedi'i ddrafftio ac mae Rob wedi cwrdd â Bwrdd, Pwyllgor a Swyddogion Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 3 Rhagfyr 2025 i rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Adolygwyd Cynllun Busnes 2024/25 hefyd a gellir gweld hyn yn Atodiad 2. Cyflwynwyd canran yr asedau a gyfunwyd hefyd a dangoswyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gref gydag 87% o'r asedau wedi'u cyfuno. Cyflwynwyd trosolwg o'r materion Buddsoddi Cyfrifol a ddangosodd fod y maes hwn yn bwysig iawn i'r PPC, sy'n esblygu'n gyflym. Cyflwynwyd gwybodaeth hefyd am y newidiadau i'r gofrestr risg gyda'r prif newidiadau i'r risgiau sy'n ymwneud â'r newidiadau rheoleiddiol a'r datblygiadau ar gyfer Prosiect Wyddfa.

3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi'i atodi o dan Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg ar yr ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 30 Mehefin 2025.

Ar hyn o bryd mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd amlygiad i saith o'r deg is-gronfa ac ar 30 Mehefin 2025, roedd gwerthoedd a chanran yr is-gronfa fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £442.7m (14%)**
- **Twf Byd- Eang - £493.3m (12%)**
- **Marchnadoedd Datblygol - £67.6m (23%)**
- **Credyd Aml Ased - £249.1m (29%)**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt - £406.6m (76%)**
- **Credyd Byd-Eang - £239.6m (23%)**
- **Ecwiti Cynaliadwy - £331.2m (21%)**

4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 30 MEHEFIN 2025

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn Atodiad 4.

Cododd Mynegai Net y Byd MSCI 11.5% (USD) mewn chwarter a fu'n anwadal ond yn gadarnhaol yn y pen draw ar gyfer ecwitiai byd-eang wrth i ofnau dros dariffau bygythiol yr Uned Daleithiau gilio. Adroddodd yr holl farchnadoedd enillion, y rhan fwyaf mewn ffigyrau dwbl, gan adlamu o wendid ym mis Ebrill. Arweiniodd Canada ac Asia Pacific tra bo'r DU ar ei hôl hi. Ar ôl cyrraedd y lefel uchel newydd ynghanol mis Mehefin, gostyngodd y mynegai byd-eang yn dilyn ymosodiadau milwrol Israel ar Iran. Fodd bynnag, codi wnaeth y sentiment yn dilyn y cadoediad a gyfryngwyd gan yr Unol Daleithiau, gan gynyddu gwerth ecwitiai. Roedd prisiau olew yn anwadal, gan gynyddu'r ofnau o darfu ar gyflenwadau yn y Dwyrain Canol, ond gostyngodd y pryderon gyda'r cadoediad bregus. Ymysg nerfusrwydd y farchnad, cyrhaeddodd aur uchafbwynt newydd. Torrodd Banc Canolog Ewrop (ECB) gyfraddau o 25 pwynt sylfaen (bps) ym mis Ebrill, ac eto ym mis Mehefin, pan ddangosodd ei fod yn dod at ddiwedd ei gylch torri cyfraddau. Ni newidiodd y Federal Reserve (Fed) gyfraddau llog tra bo Banc Lloegr wedi torri ei brif gyfradd ym mis Mai 25 bps i 4.25% ond ni newidiodd y cyfraddau ym mis Mehefin.

Yn y DU, cafodd giltiau eu heffeithio yn sgil gwerthiant Trysorlys yr Unol Daleithiau, ymysg amheuan cynyddol dros statws hafan ddiogel asedau'r Unol Daleithiau. Neidiodd costau benthyca tymor hir gyda'r cynnyrch ar giltiau 30-mllynedd yn cynyddu i lefelau a welwyd diwethaf ar ddiwedd y 1990au. Parhau'n anwadal wnaeth y marchnadoedd wrth i'r cweryla rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina barhau. Yn ddiweddarach, disgynnodd y cynnyrch ar y giltiau 10-mllynedd yn dilyn data chwyddiant oedd yn wannach na'r disgwyl. Cafodd prisiau bond eu cefnogi ymhellach gan benderfyniad y Swyddfa Rheoli Dyledion i leihau cyflwyniad gwerthiannau bond dyddiad-hir newydd. Ym mis Mai, fe wnaeth Banc Lloegr leihau cyfraddau llog 25 bps gyda phleidlais fwyafrifol o 5:4. Cododd y cynnyrch ar y giltiau 10-mllynedd yn dilyn penderfyniad y banc a'r newyddion am gytundeb masnachu rhwng yr Unol Daleithiau a'r DU. Fe wnaeth twf cyflogau araf a chynnydd mewn diweithdra atgyfnerthu'r disgwyliadau y bydd Banc Lloegr yn parhau gyda'i lwybr lleddfu ariannol. Er bod data

cychwynnol wedi dangos bod yr economi wedi ehangu 0.7% o chwarter i chwarter yn y chwarter cyntaf, gostyngodd GDP o 0.3% ym mis Ebrill, i lawr fwy na'r disgwyl, wedi'i yrru gan lai o allbwn gwasanaethau a llai o allforion i'r Unol Daleithiau. Arweiniodd hyn, ynghyd â data economaidd isel eraill, at lai o gynnyrch giltiau a chryfhaodd y disgwyliadau y byddai Banc Lloegr yn torri cyfraddau ymhellach. Er nad oedd y banc wedi newid cyfraddau ym mis Mehefin, dangosodd bod posib torri cyn gynted â mis Awst wrth ystyried yr arwyddion o wendid yn y farchnad swyddi. Dros y cyfnod, cwmpodd y cynnyrch ar giltiau 10-mlynedd meincnod o 19 bps i 4.49%.

5. SEFYDLU CWMNI RHEOLI BUDDSODDIADAU PPC (WPP IMCo)

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn y broses o sefydlu cwmni rheoli buddsoddiadau annibynnol a awdurdodir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Yn unol â meini prawf y Llywodraeth, mae'n ofynnol i symud holl asedau PPC i gael eu rheoli gan y cwmni erbyn 1af Ebrill 2026.

6. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi'r wybodaeth.

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Diweddariad cyfarfodydd Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn (PBCE)

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 29 Hydref 2025

Lleoliad: Neuadd y Sir, Caerdydd

Mynychwyr:

Swyddogion

Chris Moore, Sir Gaerfyrddin (CCC) (Cadeirydd)

Anthony Parnell, CCC

Tracey Williams, CCC

Dewi Morgan, Gwynedd

Cadeiryddion Byrddau Pensiwn

Ian Coleman, Torfaen

Karen McWilliam, Clwyd

Dafydd Edwards, Powys

Hugh Coombs, Rhondda Cynon Taf

Osian Richards, Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun

Sioned Parry, Gwynedd (rhithiol)

John Jones, Dyfed

Michael Prior, Caerdydd

Mynychwyr Eraill

Andrew Johnston, Hymans (rhithiol)

Rachel Barrack, Hymans (rhithiol)

James Zealander, Waystone (Eitem 7 ymlaen)

Aidan Quinn, Russell Investments (Eitem 7 ymlaen)

Eitem agenda	Manylion
Eitem 1 - Ymddiheuriadau	Ryland Doyle, Abertawe
Eitem 2 - Cofnodion a gweithredoedd o'r cyfarfod diwethaf	30 Ebrill 2025 Cofrestr risg Prosiect yr Wyddfa i'w rhannu â chadeiryddion y byrddau pensiwn, unwaith y bydd y Grŵp Llywio wedi cytuno ar y fersiwn ddiwygiedig
Eitem 3 – Prosiect yr	Rhoddodd Chris ac Anthony ddiweddariad ar Brosiect yr Wyddfa:

Wyddfa / WPP IM Co	• Dechreuodd Rob Lamb ei rôl fel Prif Swydddog Gweithredol WPP IM Co ar 8 Medi 2025 • Mae bwrdd pontio ar waith, sy'n cynnwys Rob Lamb, Chris Moore, Chris Lee, Barrie Davies ac Andrew Lovegrove. Mae gan y bwrdd gyfarfodydd rhithiol wythnosol a chyfarfodydd bwrdd misol ffurfiol. • Mae'r Grŵp Llywio (GLI) yn parhau i gyfarfod bob pythefnos • Mae'r cynllun busnes rheoleiddiol wedi'i ddrafftio a'i adolygu gan y bwrdd trosiannol. Mae'r cynllun wedi'i rannu gydag aelodau'r GLI a bydd yn cael ei drafod a'i gymeradwyo o bosibl yng nghyfarfod GLI y prynhawn yma. • Mae pedwar trefniant secondiad rhan-amser ar waith i gynorthwyo'r Prif Swydddog Gweithredol yn ystod y cyfnod cychwynnol. • Recriwtio – mae chwe rôl yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd: • Prif Swydddog Buddsoddi • Cadeirydd Anweithredol Annibynnol • Cyfarwyddwr Cyllid • Cyfarwyddwr Risg Ariannol • Cyfarwyddwr ar Risg Anariannol • Cynorthwy-ydd Gweithredol a Rheolwr Swyddfa • Mae'r cytundeb cyfranddalwyr yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd • Ar hyn o bryd mae Rob yn ymweld â phob awdurdod cyfansoddol / cronfa bensiwn, gan gwrdd â chadeirydd y pwyllgor pensiwn, is-gadeirydd a swyddogion y gronfa bensiwn. • Mae cyfarfod rhithiol wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mercher 5 Tachwedd i Rob gwrdd â chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn. Mae sesiwn friffio nesaf y Bwrdd Pensiwn yn cadeirio Prosiect yr Wyddfa wedi'i drefnu ar gyfer 20 Ionawr 2026 (Cyfarfod rhithiol).
Eitem 4 - Diweddariad Awdurdod Lletya	Rhoddodd Anthony Parnell a Chris Moore o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau ers y cyfarfod PBCE diwethaf a chamau / blaenoriaethau nesaf PPC.

a) Adolygiad diwedd blwyddyn Cynllun Busnes 2024/25 – Cyflwynodd Anthony ddiweddariad Cynllun Busnes 2024/25 ar 31 Mawrth 2025 (ynghlwm).

b) Diweddariad Blynyddol / Adroddiad Blynyddol 2024/25 – Mae diweddariad blynyddol 2024/25 wedi'i gyhoeddi ar y wefan. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn y broses o gael ei gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd yr wythnos hon.

c) Cynnydd pŵlio ar 31 Mawrth 2025 - cyfanswm y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2025 yw £25.8 biliwn, wedi'i rannu fel a ganlyn:

- £19.4bn wedi'i gyfuno (gan gynnwys buddsoddiadau goddefol o £5bn) – 75%
- Heb ei bwllo £6.4bn

ASEDAU WEDI'I PWLIO FESUL CRONFA AR 31 MAWRTH 2025:

Caerdydd a Bro Morgannwg	90%
Clwyd	32%
Dyfed	81%
Gwent (Torfaen)	76%
Gwynedd	87%
Powys	63%
RCT	83%
Abertawe	66%

ch) Adolygiad is-gronfa PPC – eleni cynhaliodd Hymans adolygiadau o Gronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU a Chronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang.

d) Proses Caffael Gwasanaethau Cyfreithiol – Mae Burges Salmon wedi'i ailbenodi, bydd contract newydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2026.

dd) Cofnod toriadau a gwallau – dim i'w gofnodi

e) Buddsoddi Cyfrifol (RI) – Rhoddodd Rachel Barrack o Hymans Robertson y wybodaeth ddiweddaraf am y materion Buddsoddi Cyfrifol canlynol.

	• Esblygiad Mandadau Goddefol- Disgwylir i Gronfa Aquila Life PPC World ESG Insight Equity Fund lawnsio'r wythnos nesaf. • Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan (AWCR) – bydd yr AWCR (data ar 31 Mawrth 2025) yn cael ei drafod gyda'r gweithgor Buddsoddi Cyfrifol ym mis Tachwedd 2025, yna bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r OWG cyn cael ei gwblhau i'w gyhoeddi. • Adroddiad Effaith Cymru Gyfan – mae'r Good Economy wedi dechrau gweithio ar adroddiad effaith Cymru gyfan a disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn gynnar yn 2026. • Adolygiad Thema ar gyfer 2025/26 – Mae Robeco yn cynnal cyfarfod panel perchnogaeth cleientiaid ddiwedd Tachwedd 2025, lle bydd themâu newydd yn cael eu trafod a'u cytuno. • Cod stiwardiaeth 2024/25- Bydd adroddiad Cod Stiwardiaeth yn cael ei gyflwyno ddydd Gwener yma, 31 Hydref 2025. f) Camau / Blaenoriaethau Nesaf: • Project Wyddfa / WPP IM Co • Cyhoeddi Adroddiad Blyneddol 2024/25 • Cyflwynod Adroddiad Cod Stiwardiaeth 2024/25 • Lawnsio'r rhaglen buddsoddi mewn eiddo- bydd yn cael ei lawnsio cyn bo hir. • AWCR ac Adroddiad Effaith Cymru Gyfan
Eitem 5 – Diweddariad Cynrychiolydd Aelodau	Osian Richards yw'r Cynrychiolydd Aelod Cynllun penodedig (Aelod cyfetholedig heb bleidleisio) ac mae'n mynychu cyfarfodydd JGC bob chwarter. Rhoddodd Osian ddiweddariad: • Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Rob ar ei benodiad i'r WPP IM Co a hefyd diolch i swyddogion PPC am ddod o hyd i ymgeisydd gwyd. • Mae'r gwaith ar y polisi gwahardd wedi cymryd cam da ymlaen ac rwy'n credu y bydd hyn yn cael ei groesawu gan aelodau'r cynlluniau pensiwn ledled Cymru. Y dull o gael polisi cadarn sy'n cwmpasu'r materion sydd gennym heb dargedu cwmnïau penodol yw'r ffordd orau o sicrhau bod gwerthoedd oriau a ymrwymïadau/risg ariannol yn cael eu halinio. Credaf ein bod yn gobeithio cael drafft erbyn

	diwedd y flwyddyn fel y gallwn weld sut y byddai hyn yn gweithio. • I mi fy hun y cam nesaf yn y broses yw gweithio allan y llywodraethu, h.y. pwy fydd yn eistedd ar fwrdd y cyfranddalwyr a sut y bydd aelodau'r cynllun yn cael eu cynrychioli. • Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r swyddogion am y gwaith caled gan eu bod wedi cyflawni llawer yn y flwyddyn ddiwethaf a hefyd, mae'n bwysig nodi'r gydnabyddiaeth gan MHCLG yn eu llythyr diweddar ynghylch y cynnydd y mae PPC wedi'i wneud.
Eitem 6 – Cofrestr Risg	Mae'r OWG yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r JGC bob chwarter. Mae gan yr OWG Is-Grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg a'r adolygiad chwarterol o'r ddogfen. Mae Cofrestr Risg ar wahân ar gyfer Prosiect yr Wyddfa. Yn ystod Ch2 2025, cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau o fewn adran Llywodraethu a Rheoleiddio y Gofrestr Risg, risgiau G8 i G16. Yn ystod Ch3 2025, cynhaliwyd adolygiad ar y risgiau Hyfforddiant ac Adnoddau a Chyfathrebu. Cyflwynodd Andrew Johnston o Hymans Robertson y newidiadau a gymeradwywyd gan y JGC ar 16 Gorffennaf a 17 Medi 2025 yn y drefn honno. Pwyntiau allweddol a amlygir isod: ○ G9 “Ni ellir cysoni gwahaniaeth barn / neu farn o fewn PPC.” – Mae gan PPC fesurau rheoli effeithiol ar waith, fodd bynnag, disgwylir y bydd senarios pellach, yn enwedig o amgylch cyflawniadau Prosiect yr Wyddfa a allai brofi'r risg hon, felly bydd y sgôr risg yn aros fel 15 tan y cyfarfod adolygu nesaf yn Ch2 2026. ○ G15 “Nid yw PPC yn barod ar gyfer canlyniadau unrhyw ymgynghoriad neu newid rheoleiddiol.” – Mae'r sgôr tebygolrwydd targed wedi cynyddu o 1 i 2. Mae hyn oherwydd y ffaith bod disgwyl mwy o newid rheoleiddiol CPLIL yn y dyfodol. Pan gafodd y risg hon ei sgorio i ddechrau, ystyriwyd bod polisi'r Llywodraeth ganolog ar gyfer CPLIL yn fwy sefydlog a rhagweladwy. Oherwydd arwyddocâd Prosiect yr Wyddfa, a'r amserlenni tynn ar gyfer ei gyflawni, mae risg newydd wedi'i sefydlu ar gyfer y gwaith

	hwn (risg G16). Bydd y sgôr risg yn parhau i gael ei fonitro a'i drafod yn rheolaidd. G16 "Nid yw Prosiect yr Wyddfa yn bodloni'r amserlenni a'r gallu cyflawni a nodwyd yn ymgynghoriad y Llywodraeth ac achos busnes PPC dilynol." – Mae'r amserlenni a maint y gweithgareddau sydd i'w cwblhau i ddod yn gwbl weithredol Cwmni a reoleiddir gan FCA erbyn 1 Ebrill 2026 yn parhau i fod yn heriol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r rheolaethau risg presennol, mae PPC yn gyfforddus bod prosiect yr Wyddfa yn symud ymlaen yn unol â chynllun y prosiect a'i fod 'ar y trywydd iawn'. Mae'r sgôr tebygolrwydd presennol o 3, uwchlaw'r targed o 2, oherwydd nifer o gerrig milltir critigol y mae angen eu bodloni i gyrraedd dyddiad gorffen y prosiect. Mae cofrestr risg ar wahân ar gyfer Prosiect yr Wyddfa ac mae'n cael ei monitro yn rheolaidd. Risgiau Hyfforddiant ac Adnoddau a Chyfathrebu – dim diweddariadau sylweddol. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i diweddarau i'w gweld ar wefan PPC.
Eitem 7 – Diweddariad Gweithredwr	Cyflwynodd James Zealander o Waystone yr adroddiad diweddaru chwarterol ar 30 Mehefin 2025 (ynghlwm). Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariadau'r farchnad, manylion buddsoddiadau'r is-gronfa cyfredol PPC, yn ogystal a diweddariad corfforaethol ac ymgysylltu. Ychwanegodd James fod marchnadoedd wedi perfformio'n dda dros y chwarter diwethaf a bod cyfanswm gwerth asedau o dan rheolaeth bellach yn agos i £14.5bn
Eitem 8 – Perfformiad Adroddiadau fel ar 30 Mehefin 2025	Cyflwynodd Aidan Quinn o Russell Investments bapur cryno perfformiad (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2025. Perfformiad da yn Ch2 a Ch3, enillion cadarnhaol ar draws pob is-gronfa, gyda chanlyniad cymysg ar enillion gormodol.
Eitem 9 – Unrhyw fater arall	Dim
Eitem 10 – Cyfarfod nesaf	Dydd Mercher, 29 Ebrill 2026

Dolen gwe-ddarlledu ar gyfer cyfarfodydd JGC 4 Mehefin 2025, 16 Gorffennaf 2025 a 17 Medi 2025 isod:

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 4ydd Mehefin, 2025, 2.00 yp](#)

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 16eg Gorffennaf, 2025, 10.00 yb](#)

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 17eg Medi, 2025, 10.00 yb](#)

Cyfeiriad gwefan PPC: [Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref](#)



Cynllun Busnes
Partneriaeth Pensiwn Cymru
2024-2025
Adolygiad Ch4
(Ebrill 2024 i Mawrth 2025)

Llywodraethu

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Proses gaffael yr Ymgynghorydd Goruchwyliol	Do	
Proses gaffael darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu	Do	
Adolygiad blynyddol o bolisiâu a chynlluniau PPC	Parhaus	
Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg	Parhaus	
Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad	Parhaus	

Datblygiad parhaus i'r Is-gronfeydd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Lansio'r rhaglenni buddsoddi eiddo tirol	Yn mynd rhagddo	
Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol	Parhaus	
Ystyriaeth o ofynion Ffyniant Bro / gofynion effaith y Bartneriaeth	Parhaus	
Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen	Parhaus	
Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol	Parhaus	

Gwasanaethau Gweithredwr

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Cwblhau proses caffael contract a gweithredu contract gweithredwr newydd	Do	
Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa	Parhaus	

Buddsoddiadau ac Adrodd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat	Yn mynd rhagddo	Opsiynau adrodd yn cael eu hystyried ar gyfer marchnadoedd preifat
Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD	Do	Wedi cael ei gyflwyno i CBLI ym mis Mawrth 2025
Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth	Do	Adroddiad 2023/24 wedi gyflwyno 31 Hydref 2024
Ystyried adroddiadau ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cyfrifol	Parhaus	
Adrodd, craffu a herio parhaus ar berfformiad yr Is-gronfeydd buddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd	Parhaus	
Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog)	Do	Yn cael ei gyflwyno i CBLI ym mis Medi 2025
Adroddodd pob rheolwr enillion absoliwt positif. Ar sail gymharol, RBC UK (BlueBay) oedd y rheolwr a berfformiodd orau, yn perfformio'n well na'i feincnod yn sylweddol. Fe wnaeth Voya a GLG hefyd gyflawni enillion uwch na'r meincnod, gyda pherfformiad GLG yn cael ei yrru gan estyniadau cyfnod tactegol ym Mrasil, Mecsico a'r Unol Daleithiau. I'r gwrthwyneb, fe wnaeth arbenigwyr enillion uchel, Barings ac ICG, danberfformio eu meincnodau perthnasol.

Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 2%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros*	1.3	7.0	6.5	4.4
Net*	1.2	6.6	6.1	4.0
3 Mis GBP SONIA + 2%	1.6	7.0	6.6	5.0
Gwarged enillion (gros)	-0.3	0.00	-0.1	-0.6
Gwarged enillion (Net)	-0.4	-0.4	-0.5	-1.0

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Russell Investments fel ar 30 Mehefin 2025

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu'r Gronfa ar ei hôl hi gyda'r targed yn y chwarter hwn. Cafodd perfformiad ei gefnogi gan ychwanegiad diweddar DNCA, a gyfrannodd yn gadarnhaol, gan ddychwelyd 1.67% ers cychwyn ar 23 Ebrill. Roedd safleoedd cyfnod rhanbarthol gweithredol DNCA yn brif yrrwr o'r perfformio gwell hyn.

Fe ychwanegodd Oaktree 1.66% yn ystod y chwarter, oedd hefyd yn cwrdd â'r targed enillion. Cynhyrchodd marchnadoedd credyd enillion cryf yn ystod yr ail chwarter, wedi'u gyrru gan ledaenu credyd yn tynhau a chyfradd y Trysorlys yn dirywio. Yn ôl diwydiant, fe wnaeth daliadau Meddalwedd/Gwasanaethau gyfrannu fwyaf at enillion absoliwt chwarterol, gyda REITs a Health Facilities yn dilyn hynny. Fe wnaeth daliadau fferyllol leihau. Fe wnaeth Aegon, rheolwr ABS y gronfa, ddychwelyd 0.97% yn y chwarter. Fe wnaeth perfformiad elwa o adfer lledaeniad ABS Ewropeaidd yn dilyn adlamu ar ôl 'Liberation Day'. Ar ôl prif farchnad tawel yn gynnar ym mis Ebrill, fe wnaeth ymdeimlad marchnad gwell ym mis Mai arwain at dynhau lledaeniad a gwell amodau cyhoeddiadau. Fe wnaeth galw cryf gan fuddsoddwyr, wedi'i danategu gan arian uwch, amsugno'r cynnydd mewn cyflenwad. Dychwelodd Wellington 0.66% yn ystod y chwarter, gan danberfformio'r SONIA Overnight Rate Index o 43bps. Fe wnaeth safleoedd parhad ardal yr Ewro a'r DU, wedi'u cyfuno â thuedd oedd yn mynd yn fwy serth, dynnu oddi ar berfformiad. Fodd bynnag, cafodd gwerth ei ychwanegu drwy leoli arian cyfred – yn fwyaf amlwg, tan-bwysau mewn doler yr Unol Daleithiau – a mwy o amlygiad i gredyd enillion uchel, gan gyfalafu ar ledaenu yn gynnar yn y chwarter.

Cronfa Credyd Sterling:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.65%** sy'n fwy na meincnod net yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.9	5.8	3.8	-0.3
Net	2.9	5.7	3.7	-0.4
Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling	2.9	6.0	3.1	-0.6
Gwarged enillion (gros)	0.0	-0.2	0.7	0.3
Enillion dros ben (Net)	0.0	-0.3	0.6	0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mehefin 2025
Meincnod: Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	9 CHWEFROR 2026
TEITL:	PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN HYD AT 30 MEDI 2025
PWRPAS:	I HYSBYSU AELODAU'R BWRDD O BERFFORMIAD BUDDSODDIADAU'R GRONFA BENSIWN
ARGYMHELLIAD:	NODI'R WYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI


1. Cyflwyniad

Mae perfformiad buddsoddi'r rheolwyr asedau yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Pensiynau yn rheolaidd, gyda'r rheolwyr asedau yn cyflwyno fel bo'r angen.

Tra bod monitro chwarterol a blynyddol yn cymryd lle, dylid nodi mai dychweliadau'r gronfa bensiwn dros y tymor hir yw'r nod, ac mae'n anochel bydd ychydig o amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn, a pherfformiad yn fwy cyfnewidiol o chwarter i chwarter. Yn gyffredinol, mae perfformiad rheolwyr asedau unigol yn cael eu hasesu dros 3 blynedd.

2. Gwerth Marchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dangosir gwerth marchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd dros y blynyddoedd diwethaf yn y graff isod:



Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa iach gyda gwerth y gronfa yn cynyddu'n raddol dros amser. Ar 31 Mawrth 2025, gwerth marchnad y Gronfa Bensiwn oedd £3.2 biliwn, gyda'r gwerth wedi codi i £3.5 biliwn erbyn 30 Medi 2025.

3. Perfformiad Buddsoddi y Gronfa Bensiwn hyd at 30 Medi 2025

Dangosir perfformiad y gronfa yn erbyn y meincnod yn y tabl isod:

	3 Mis %	Blwyddyn %
Cronfa	5.6	10.7
Meincnod	5.2	10.9
Perfformiad Cymharol	+0.4	-0.2

Dychwelodd y Gronfa 5.6% dros y chwarter, gan berfformio'n well na'r meincnod. Cynyddodd cyfanswm yr asedau a ddangosir yn yr adroddiad hwn tua £186m i tua £3.5bn, wrth i asedau twf, incwm a diogelu gynyddu mewn gwerth.

Gwelodd y Gronfa enillion cadarnhaol dros flwyddyn ac er bod yr enillion absoliwt a ddarparwyd yn gryf, methodd y gronfa gyflawni ei feincnod. Methodd rhan fwyaf o gronfeydd Cymru a Lloegr â chyflawni eu meincnod dros y cyfnod o flwyddyn oherwydd bod y meincnod a osodir yn heriol, ond roedd perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd yn well na'r cyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Ecwiti

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ecwiti unigol ar 30ain Medi 2025:

	Gwerth Marchnad 30/09/25 £m	Perfformiad 3 Mis %	Perfformiad Blwyddyn %
Black Rock Aquila Life UK Equity Meincnod	329.2	6.9 6.9	16.2 16.2
Perfformiad Cymharol		0.0	0.0
Black Rock ACS Low Carbon Meincnod	197.2	9.3 9.3	17.1 16.6
Perfformiad Cymharol		0.0	0.5
Cronfa PPC Emerging Markets Meincnod	77.3	13.9 12.7	22.9 17.1
Perfformiad Cymharol		1.2	5.8
Cronfa PPC Global Growth Meincnod	477.5	8.7 9.5	14.0 16.8
Perfformiad Cymharol		-0.8	2.8
Cronfa PPC Global Opportunities Meincnod	526.4	10.3 9.5	18.0 16.8
Perfformiad Cymharol		0.8	1.2
Cronfa PPC Sustainable Active Equity Meincnod	352.1	7.0 9.5	8.5 16.8
Perfformiad Cymharol		-2.5	-8.3

Cododd marchnadoedd ecwiti dros y chwarter wrth i densiynau masnach ddiflannu. Cafodd marchnadoedd eu hwb gan enillion corfforaethol, momentwm AI, dyddiad twf gwydn a thoriad cyntaf y flwyddyn y Fed. Roedd perfformiad ecwiti byd-eang

rhestredig yn gadarnhaol dros y chwarter, gan berfformio'n well na'r enillion meincnod. Cafodd hyn ei yrru gan berfformiad cryf ar draws rhanbarthau, gan gynnwys Gogledd America sy'n ffurfio llawer o fynegeion, a marchnadoedd datblygol.

Mandad ecwiti PPC Emerging Markets oedd â'r perfformiad absoliwt mwyaf a pherfformiodd yn well na'r meincnod, tra bod mandadau PPC Sustainable Active Equity, PPC Global Growth a PPC Global Opportunities hefyd wedi darparu enillion absoliwt cadarnhaol, er bod perfformiad o'i gymharu â'r mynegai byd-eang yn gymysg.

Cyflwynodd cronfa Black Rock UK Equity a chronfa Black Rock Low Carbon enillion absoliwt cadarnhaol cryf, gan berfformio yn unol â'u meincnodau priodol.

Perfformiad Rheolwyr Incwm Sefydlog

	Gwerth Marchnad 30/09/25 £m	Perfformiad 3 Mis %	Perfformiad Blwyddyn %
Cronfa PPC Multi Asset Credit Meincnod	257.8	4.2 2.0	7.3 8.8
Perfformiad Cymharol		2.2	-1.5
Cronfa PPC Absolute Return Bond Meincnod	412.3	1.1 1.6	6.5 6.7
Perfformiad Cymharol		-0.5	-0.2
Cronfa PPC Global Credit Meincnod	242.6	2.1 2.0	4.0 4.1
Perfformiad Cymharol		0.1	-0.1

Mae'r cronfeydd incwm sefydlog a lansiwyd yn 2021 wedi cael cyfnodau heriol gyda ansefydlogrwydd y farchnad oherwydd ymosodiad Rwsia ar Wcráin a chyfnod ble roedd chwyddiant a chyfraddau llog Banc Lloegr ar ei uchaf ers degawdau. Mae amodau'r farchnad wedi dechrau setlo erbyn hyn ac mae perfformiad y cronfeydd yn agosach i'r meincnod.

Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Eiddo

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Asedau Eiddo unigol:

	Gwerth Marchnad 30/09/25 £m	Perfformiad 3 Mis %	Perfformiad Blwyddyn %
UBS	79.2	1.2	5.0
Lothbury	3.0	d/b	d/b
Black Rock	57.6	0.9	5.2
Threadneedle	37.1	1.0	5.7
Threadneedle TPUT		1.8	7.9
Meincnod		1.2	6.8

Mae marchnad eiddo'r DU yn parhau i wynebu heriau gan gynnwys galw anwastad, pwysau adbrynu parhaus a chost uchel cyfalaf. Gwelodd mandadau'r Gronfa enillion cymysg, gyda Lothbury wedi ei derfynu ar 30 Mai 2024.

Marchnadoedd Preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru

	Gwerth Marchnad 30/09/25 £m
Ecwiti Preifat PPC	15.2
Isadeiledd Cynaliadwy PPC	5.8
Isadeiledd Rhyngwladol PPC	8.6
Isadeiledd PPC Agored	120.1
Credyd Preifat PPC	51.7
Cyfanswm	201.4

Mae'r cronfeydd yma wedi ei lawnsio ers 2023 gyda cyfalaf yn cael ei alw yn rheolaidd gan y rheolwyr buddsoddi. Disgwylir i'r buddsoddiadau gynyddu yn sylweddol dros y cyfnod a byddwn yn adrodd ar eu perfformiad maes o law.

Grŵp Partners

Mae Grŵp Partners yn gyfrifol am reoli buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd y Gronfa.

	Gwerth Marchnad 30/09/25 £m
Partners Ecwiti Preifat	153.3
Partners Isadeiledd	69.7
Cyfanswm	223.0

Mae monitro perfformiad buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn dipyn anoddach nag asedau traddodiadol, megis bondiau wedi'i dyfynnu ac ecwiti. Mae gan gronfeydd ecwiti preifat hyd bywyd penodedig o tua 10-15 mlynedd. Dim ond pan mae asedau unigol yn cael eu gwerthu gellir cadarnhau gwir elw / dychweliadau, ac felly ni ellir asesu gwir berfformiad nes mae'r gronfa wedi cau. Mae rhaglen y Gronfa ar gyfer buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan ein hymgynghorwyr, Hymans Robertson.

4. Perfformiad hanesyddol y Gronfa Bensiwn

Cydnabyddir yn gyffredinol bod perfformiad dros gyfnod hirach o amser yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol oherwydd gall strategaethau a gynllunir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddioddef colledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

Mae perfformiad buddsoddiadau'r gronfa wedi bod yn is na'r meincnod yn y flwyddyn a thros dair blynedd, yn bennaf oherwydd perfformiad rhai o'r cronfeydd ecwiti, incwm sefydlog ac eiddo, ond ers ei sefydlu, mae'r perfformiad wedi bod yn uwch na'r meincnod, fel y gwelir yn y tabl isod:

	Blwyddyn %	3 Mlynedd % y.f	Ers Cychwyn % y.f.
Cronfa	10.7	9.8	7.9
Meincnod	10.9	10.0	7.7
Perfformiad Cymharol	-0.2	-1.1	+0.2

Er bod perfformiad 3 blynedd y Gronfa wedi bod y tu ôl i'r meincnod, roedd y perfformiad yn chwarterl uchaf yr holl gronfeydd CPLIL. Mae'r meincnodau a roddir yn heriol iawn (h.y. MSCI AC World) ac mae'r gronfa yn perfformio'n dda o'i gymharu â chronfeydd CPLIL eraill.

5. Dyranid Asedau Strategol

Dangosodd prisiad actiwaraid 2025 unwaith eto fod gan y Gronfa lefel ariannu gryf ac felly mae ymgynghorwyr y Gronfa, Hymans Robertson wedi cynnal adolygiad pellach o'r strategaeth fuddsoddi a cymeradwywyd dyranid asedau strategol arfaethedig y Gronfa yn y Pwyllgor Pensiynau diwethaf.

Mae'r tabl hwn yn dangos y dyranid gwirioneddol ar 30 Medi 2025, y dyranid interim arfaethedig sy'n caniatáu ar gyfer y portffolio wedi'i glustnodi (sy'n cynnwys 75% o ecwiti a 25% o fondiau ac arian parod), a'r targed hirdymor arfaethedig.

Dosbarth ased	Gwir ar 30 Medi 2025	Strategaeth interim arfaethedig	Targed hirdymor arfaethedig (Opsiw 1)
Asedau Twf	60.80%	53.40%	40.00%
Ecwiti DU	9.40%	8.00%	6.00%
Ecwiti Byd-Eang	44.40%	38.50%	27.00%
Ecwiti marchnadoedd datblygol	2.20%	2.00%	2.00%
Ecwiti preifat	4.80%	4.80%	5.00%
Asedau Incwm	19.70%	19.70%	37.50%
Eiddo	5.10%	5.10%	10.00%
Isadeiledd	5.80%	5.80%	7.50%
Cyfalaf naturiol	0.00%	0.00%	5.00%
Credyd preifat	1.50%	1.50%	7.50%
Credyd aml- ased	7.40%	7.40%	7.50%
Asedau Diogelu	19.50%	27.00%	22.50%
Bondiau dychwelyd absoliwt	11.80%	17.90%	13.00%
Bondiau corfforaethol	6.90%	8.00%	8.00%

Giltiau	0.00%	0.00%	2.50%
Arian	80.00%	1.10%	0.00%
Cyfanswm	100.00%	100.00%	100.00%

Cytunwyd i leihau risg y Gronfa oherwydd y lefel ariannu cryf gan gyflwyno buddsoddiadau mewn asedau cyfalaf naturiol a fydd yn cynorthwyo at leihau targed sero net y Gronfa. Mae cynllun wedi'i ddatblygu i symud y Gronfa tuag at y targed hirdymor arfaethedig dros y 12-18 mis nesaf. Bydd buddsoddiadau mewn asedau incwm a bondiau dychwelyd absoliwt yn cynyddu dros amser fel y gelwir yr arian.

6. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	9 CHWEFROR 2026
TEITL:	ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA
PWRPAS:	Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol a nodi amcanion y dyfodol
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Mae'n ymarfer da i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w hymgynghorwyr buddsoddi ac mae'r amcanion yma yn cael eu gosod a'u diweddarau bob blwyddyn.

2. GOSOD AMCANION I YMGYNHORWYR BUDDSODDI

Dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf bob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNHORWYR BUDDSODDI

Mae amcanion Cronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ystod 2025.

4. AMCANION Y DYFODOL

Mae amcanion y dyfodol wedi eu nodi yn Atodiad 2. Maent yn parhau i fod yn weddol debyg ond wedi amlygu bydd angen cyd-weithio gyda cwmni buddsoddi newydd Partneriaeth Pensiwn Cymru sef WPP IM Co.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad cynnydd ac amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf.

Amcanion Ymgynghorwyr 2025	Adroddiad cynnydd yn ystod 2025
1. I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa a cefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys cyngor yn dilyn y prisiad teirblyneddol fel yn briodol.	Cynnal adolygiad strategaeth fuddsoddi gyda chefnogaeth modelu atebolrwydd asedau, sydd wedi arwain at ddyraniad asedau strategol newydd yn cael ei gytuno gan y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys dyraniad newydd i gyfalaf naturiol. Ategwyd hyn gan gyngor ynghylch gweithredu'r strategaeth fuddsoddi wedi'i diweddarau, gan gynnwys gwerthiannau o ecwiti. Darparwyd cyngor mewn perthynas ag opsiynau ecwiti <i>index-linked</i> a throsglwyddo i fandad newydd BlackRock. Darparwyd cyngor mewn perthynas â dyraniad strategol y Gronfa i eiddo i lywio ymrwymadau diwrnod 1 i eiddo masnachol y DU ac eiddo lleol y DU drwy raglenni PPC. Darparwyd cyngor hefyd mewn perthynas ag ymrwymadau rheolaidd i'w ddyraniadau marchnad breifat trwy raglenni PPC. Roedd enillion y gronfa dros 12 mis (a 3 blynedd) hyd at 30 Medi 2025 yn 10.7% y flwyddyn (9.8% y flwyddyn). Mae'r ddau ffigwr yn 0.2% y flwyddyn y tu ôl i'r enillion meincnod dros y cyfnodau priodol.
2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol.	Darparwyd cyngor i gadarnhau cyfansoddiad y gronfa gyfunol (ecwiti, bondiau ac arian parod) sydd wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddi mewn asedau marchnadoedd preifat (incwm). Bydd hyn yn cael ei dynnu i lawr dros gyfnod o flynyddoedd i ariannu ymrwymadau buddsoddi newydd.

3. I gynghori ar weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn gost effeithiol fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru a diwygio gofynion pŵlio CPLIL.	Fel y nodwyd uchod, derbyniodd y Gronfa gyngor mewn perthynas â mandadau ecwiti ac eiddo PPC, ac mewn perthynas ag ymrwymïadau rheolaidd i ddyraniadau marchnad breifat trwy PPC. Mae swyddogion wedi ymgysylltu â PPC ar gyfalaf naturiol i ddeall cynlluniau ac amserlenni PPC ar gyfer lawnsio cronfa newydd. Bydd swyddogion yn cyfrannu at y dyluniad i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y Gronfa. Ar ddiwedd mis Medi, mae'r Gronfa wedi buddsoddi c73% o'i hasedau uniongyrchol mewn cronfeydd PPC. Disgwylir i hyn gynyddu i c78% pan fydd y buddsoddiadau eiddo presennol yn cael eu trosglwyddo i gronfa eiddo masnachol PPC DU. Yn ychwanegol, mae oddeutu c15% o'r asedau wedi eu buddsoddi mewn cronfeydd olrhain mynegai gyda BlackRock. Yr unig fuddsoddiadau materol y tu allan i PPC a BlackRock yw mandadau ecwiti preifat a isadeiledd Partners, sy'n werth tua 6% o gyfanswm asedau'r Gronfa. Bydd y mandadau hyn yn cael eu caniatáu i redeg dros gyfnod o flynyddoedd gyda disgwyl i'r dosbarthiadau gael eu hail-fuddsoddi mewn cronfeydd PPC. Mae Hymans yn ystyried costau trafodion fel rhan o weithredu eu cyngor. Mae cyhoeddiadau a diweddariadau buddsoddi wedi'u rhannu gyda'r Gronfa heb gost. Mae cyngor wedi ei ddarparu mewn perthynas â newidiadau i ffioedd UBS (er bod swyddogion wedi delio gyda UBS yn uniongyrchol).
4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau a deddfwriaeth pensiwn perthnasol a chanllawiau arweiniol.	Mae'r holl drefniadau yn parhau i gydymffurfio.

	Nid oes unrhyw newidiadau rheoleiddiol diweddar y bu angen i'r Gronfa fod yn ymwybodol ohonynt, heblaw am y newidiadau Addas ar gyfer y Dyfodol a fydd yn cael eu gweithredu o fis Ebrill 2026 ymlaen.
5. I ddatblygu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol.	Derbyniodd y Gronfa hyfforddiant mewn perthynas â chyfalaf naturiol trwy PPC. Ymgwymerodd y Gronfa â gweithdy sero net a phrosiect alinio sero net i asesu rôl cyfalaf naturiol wrth gyflawni ei uchelgeisiau hinsawdd. Roedd y Gronfa yn rhan o drafodaethau mewn cyfarfodydd a oedd yn trafod ystyriaethau cymdeithasol. Darparodd Hymans adrodd risg CIPFA fel y gofynnwyd. Mae datganiad strategaeth fuddsoddi'r Gronfa (ISS) i'w ddiweddarau i adlewyrchu'r strategaeth fuddsoddi wedi'i diweddarau a gofynion eraill sy'n gysylltiedig â pwlio.
6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas ag ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol.	Mae polisïau a chredoau'r Gronfa yn cael eu hadlewyrchu trwy gydol y cyngor buddsoddi a dderbynnir gan y Gronfa.
7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol. Bydd y gwasanaethau'n gymesur ac yn gystadleuol o ran costau o'u cymharu â cyfoedion. Dylai gwasanaethau gadw at gyllidebau y cytunwyd arnynt a bod yn dryloyw, gan restru gwaith ychwanegol gyda ffioedd ymlaen llaw.	Dilyniant amserol ar ôl ymholiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfarfodydd, er enghraifft, mewn perthynas ag amlygiad cyfalaf naturiol mewn mandadau eraill y Gronfa. Cyngor ailgydbwyso amserol a dderbyniwyd yn Ch4. Diweddariadau marchnad wythnosol a ddarperir heb gost yn ystod cyfnod o anwadalrwydd y farchnad yn Ch2.

	Mae ffioedd Hymans yn unol â grŵp cyfoedion, gyda ffioedd sefydlog ar gyfer tasgau craidd penodol, a ffioedd costau amser ar gyfer tasgau ychwanegol. Mae Hymans yn gosod cyllidebau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw lle bo'n bosibl. Adborth gan Swyddogion yw bod papurau o ansawdd da, ond nid yw amseroedd cyflwyno bob amser yn unol â disgwyliadau'r Swyddogion. Yn benodol, cyflwynwyd y papur strategaeth ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd yn hwyrach na'r disgwyl. Bydd Hymans yn adolygu cyfansoddiad y tîm i gyflwyno adnoddau ychwanegol. Bydd Hymans hefyd yn nodi cynllun gwaith ar gyfer 2026 gyda chyllidebau.
8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi.	Hyfforddiant cyfalaf naturiol wedi ei ddarparu trwy PPC. Ymgwymerodd y Gronfa â gweithdy sero net a phrosiect alinio sero net i asesu rôl cyfalaf naturiol wrth gyflawni ei uchelgeisiau hinsawdd. Mae Hymans yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel ar ddatblygiadau'r farchnad trwy gyflwyno'r adroddiadau perfformiad chwarterol.
9. Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a ESG a fydd yn arwain at sefydlu dyddiad targed sero net a chynllun gweithredu pontio hinsawdd sy'n nodi'r camau y bydd y Pwyllgor yn eu cymryd i leihau allyriadau carbon.	Mae Hymans yn parhau i ymgorffori ystyriaethau ESG a risg hinsawdd yn ei gyngor. Mae'r Gronfa yn parhau i fonitro'r gofynion sy'n ymwneud â TCFD, mesur allyriadau carbon ar gyfer y portffolio a thargedau sero net.

	Fel y nodwyd uchod, cynhaliodd y Gronfa weithdy sero net ac asesiad aliniad sero net. Roedd hyn yn dangos y gefnogaeth y gallai dyraniad i gyfalaf naturiol ei ddarparu i gyflawni uchelgeisiau sero net y Gronfa.
10. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn cydweithio gydag actiwari, rheolwyr asedau, a 'custodian' y Gronfa, yn ogystal â thrydydd partiïon eraill gan gynnwys gweithredwr ac ymgynghorwyr y pŵl.	Cydweithiodd Hymans ag actiwari'r Gronfa (hefyd Hymans) fel y bo'n briodol. Dros y flwyddyn, mae hyn wedi cynnwys darparu'r adolygiad strategaeth prisio actiwaraidd integredig a strategaeth fuddsoddi. Rhannodd Hymans gwestiynau gyda'r Gronfa mewn perthynas â'r rheolwyr asedau a gyflwynodd yng nghyfarfodydd y Panel. Mae Hymans yn gweithio gyda rheolwyr buddsoddi lle bo'n briodol ar gyfer adrodd perfformiad a rhagamcanu ymrwymadau'r farchnad preifat i gefnogi rheoli llif arian yn effeithlon.
11. Datblygu gwybodaeth y Pwyllgor o ymgynghoriad y llywodraeth ar ddyfodol y CPLIL a sut y bydd hyn yn effeithio ar weithrediad y Gronfa.	Rhoddodd Hymans wybodaeth i'r Gronfa ynglŷn ag ymgynghoriadau CPLIL dros 2025. Derbyniodd y Gronfa gyngor yn unol â chyfuno disgwyliadau yn dilyn sawl ymgynghoriad.

Amcanion Ymgynghorwyr 2026
1. I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa a cefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir.
2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol.
3. I gynghori ar weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn gost effeithiol fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Cwmni Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP IM Co) a diwygio gofynion pŵlio CPLIL.
4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau a deddfwriaeth pensiwn perthnasol a chanllawiau arweiniol.
5. I ddatblygu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol.
6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas ag ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol.
7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol. Bydd y gwasanaethau'n gymesur ac yn gystadleuol o ran costau o'u cymharu â cyfoedion. Dylai gwasanaethau gadw at gyllidebau y cytunwyd arnynt a bod yn dryloyw, gan restru gwaith ychwanegol gyda ffioedd ymlaen llaw.
8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi.
9. Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a ESG a fydd yn arwain at sefydlu dyddiad targed sero net a chynllun gweithredu pontio hinsawdd sy'n nodi'r camau y bydd y Pwyllgor yn eu cymryd i leihau allyriadau carbon.
10. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn cydweithio gydag actiwari, rheolwyr asedau, a 'custodian' y Gronfa, yn ogystal â thrydydd partïon eraill gan gynnwys gweithredwr ac ymgynghorwyr WPP IM Co.
11. Parhau i ddatblygu gwybodaeth y Pwyllgor o ymgynghoriad y llywodraeth ar ddyfodol y CPLIL a sut y bydd hyn yn effeithio ar weithrediad y Gronfa.

Eitem 9

PWYLLGOR: BWRDD PENSIWN

DYDDIAD: 9 CHWEFROR 2026

TEITL: CYLLIDEB 2026/27

PWRPAS: I nodi cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

ARGYMHELLIAD: NODI'R GYLLIDEB

AWDUR: DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno cyllideb 2026/27 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.
- 1.2 Mae'r gyllideb yma yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Pensiynau yn eu cyfarfod ar 9fed o Chwefror 2026 am 10yb.

2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

	Terfynol 2025/26 £	Chwyddiant £	Addasiadau £	Cyllideb 2026/27 £
Gweithwyr	1,024,730	33,400	(1,380)	1,056,750
Costau teithio a chynhaliaeth	1,440	0	1,000	2,440
Cyflenwadau a Gwasanaethau	304,180	9,180	185,500	498,860
Gwasanaethau Canolog	138,810	4,160	0	142,970
Cyfanswm	1,469,160	46,740	185,120	1,701,020

2.1 Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth

Mae'r gyllideb ar gyfer yr adain yma'n cynnwys 23 swydd llawn amser (4 ohonynt yn swyddi dros dro) a 2 swydd rhan amser.

2.2 Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae'r gyllideb yma'n cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a chostau meddalwedd.

Mae'r gyllideb ar gyfer yr elfennau wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd y cynnydd yn nghostau postio llythyrau a osodwyd gan y gwasanaethau post. Er ein bod wedi ceisio cynyddu'r defnydd o'n porth ar-lein i anfon dogfennau'n electronig ac i leihau faint o eitemau sy'n cael eu hanfon drwy'r post, mae'r costau postio wedi parhau i gynyddu. Byddwn yn parhau i gynyddu'r defnydd o gyfathrebu electronig yn ystod 2026/27 ac yn y blynyddoedd i ddod.

Gofynnir i gynyddu'r gyllideb yma yn barhaol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod angen i'r Gronfa brynu elfennau ychwanegol o fewn meddalwedd presennol, megis ISP ar gyfer y Dashfwrdd Pensiynau a ffioedd datblygu ar gyfer y datrysiad McCloud.

2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys elfen o gostau y Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

3. UNED BUDDSODDI

	Terfynol 2025/26 £	Chwyddiant £	Addasiad £	Cyllideb 2026/27 £
Gweithwyr	138,870	4,330	(7,970)	140,800

3.1 Gweithwyr

Mae'r adain yma wedi'i leoli o fewn y brif uned Cyllid Canolog, felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi'i rannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (90%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (85%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (40%)

4. COSTAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU, RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

- 4.1 Nid oes cyllideb yn cael ei osod ar y pwynt yma gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa.

5. ADDAS I'R DYFODOL

- 5.1 Yn unol â'r rheoliadau 'Addas i'r Dyfodol', bydd gofyniad statudol i benodi Uwch Swyddog CPLIL erbyn 1 Hydref 2026. Bydd gan y rôl newydd gyfrifoldebau sylweddol mewn perthynas â llywodraethu'r cynllun, cydymffurfiaeth, a goruchwyliaeth.

Yn ogystal â hyn, disgwylir i'r cynnydd parhaus mewn gofynion llywodraethu a'r angen i ddarparu hyfforddiant uwch i swyddogion a chynrychiolwyr y Pwyllgor a Bwrdd greu galw ychwanegol ar adnoddau staffio. O ganlyniad, rhagwelir y bydd costau staffio'n cynyddu yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 er mwyn sicrhau bod y Gronfa'n gallu cyflawni'r ymrwymadau hyn yn effeithiol ac yn cynnal cydymffurfiaeth â safonau rheoleiddiol.

Bydd manylion pellach ar effaith uniongyrchol y gofynion hyn, gan gynnwys cwmpasu rôl yr Uwch Swyddog CPLIL a goblygiadau adnoddau cysylltiedig, yn cael eu darparu i'r Bwrdd wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhannu er mwyn sicrhau tryloywder ac i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â chynllunio'r gyllideb.

6. ARGYMHELLIAD

- 6.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27.

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	9 CHWEFROR 2026
TEITL:	DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO
PWRPAS:	I gyflwyno ac adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido a pholisïau cysylltiedig
ARGYMHELLIAD:	ADOLYGU'R DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO A PHOLISIAU CYSYLLTIEDIG
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'n ofynnol i'r Gronfa adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) erbyn 31 Mawrth 2026 yn dilyn y prisiad teirblynyddol.
- 1.2 Mae'r drafft wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau yn ei cyfarfod ar fore'r 9fed o Chwefror 2026.
- 1.3 Mae'n ofynnol i'r awdurdod gweinyddol ymgynghori gyda'r cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorwyr y gronfa, ac unrhyw rai eraill rydym yn ystyried yn addas.
- 1.4 Bydd yr ymgynghoriad yn digwydd rhwng 10fed Chwefror 2026 a 9fed Mawrth 2026.

2. PRISIAD ACTIWARAIDD

- 2.1 Paratowyd y prisiad actiwaraidd gan ddefnyddio rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt gyda'r actiwari. Cyflwynwyd y rhagdybiaethau hyn i'r Pwyllgor Pensiynau i'w cymeradwyo ar 15 Medi 2025.
- 2.2 Mae'r prisiad actiwaraidd teir blynyddol y Gronfa yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Cynhaliwyd cyfarfod cyflogwyr ar 24 Hydref 2025 pan gyflwynwyd a thrafodwyd y canlyniadau actiwaraidd rhagarweiniol. Mae adroddiadau terfynol yn cael eu paratoi ar gyfer pob cyflogwr ar hyn o bryd.
- 2.3 Dangosodd y canlyniadau rhagarweiniol fod yr holl gyflogwyr bellach gyda gwarged ac felly nid oes ganddynt unrhyw daliadau diffyg i'w gwneud dros y tair blynedd nesaf.

3. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO DRAFFT (DSC)

- 3.1 Gweler copi drafft o'r DSC yn atodiad A.
- 3.2 Prif amcanion y strategaeth gyllido yw:
 - cymryd golwg hirdymor doeth i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion

- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrdd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor
- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr
- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymadau pensiwn

3.3 Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido wedi'i baratoi gyda cymorth actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson.

4. POLISIÂU CYSYLLTIEDIG

4.1 Yn ogystal â'r wybodaeth a gyflwynir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, mae polisïau ychwanegol sydd hefyd yn bwydo i mewn i'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Y polisïau ydi:

Atodiad Dd: Polisi ar ragdalau cyfraniadau
 Atodiad E: Polisi ar basio drwodd
 Atodiad F: Polisi ar adolygiadau cyfraniadau
 Atodiad Ff: Polisi ar reoli risg salwch
 Atodiad G: Polisi ar adael y gronfa

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido a'r polisïau cysylltiedig.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cael fersiwn derfynol o'r Datganiad Strategaeth Cyllido i'w fabwysiadu erbyn 31 Mawrth 2026.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Datganiad Strategaeth Cyllido

Ebrill 2026

Dyddiad effeithiol	1 Ebrill 2026
Dyddiad prisio blaenorol	31 Mawrth 2025
Dyddiad cymeradwyo	
Adolygiad nesaf	Mawrth 2029
Paratowyd yn unol â chanllawiau SAB / CIPFA / MHCLG dyddiedig	Ionawr 2025

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Datganiad Strategaeth Cyllido

Cynnwys

1. Pwrpas Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r Datganiad Strategaeth Cyllido
2. Sut mae'r Gronfa yn cyfrifo cyfraniadau cyflogwr?
3. Pa gyfraniadau eraill gall fod yn ddaladwy?
4. Sut mae'r Gronfa yn cyfrifo asedau ac ymrwymadau?
5. Beth sydd yn digwydd pan mae cyflogwr yn ymuno gyda'r Gronfa?
6. Beth sydd yn digwydd pan mae cyflogwr yn trosglwyddo staff mewn swmp?
7. Beth fydd yn digwydd pan fydd cyflogwr yn gadael y Gronfa?
8. Beth yw'r gofynion adrodd statudol?

Atodiadau

Atodiad A – Y fframwaith rheoleiddio
Atodiad B – Rolau a chyfrifoldebau
Atodiad C – Geirfa
Atodiad CH – Risgiau a rheolaethau
Atodiad D – Rhagdybiaethau actiwaraid
Atodiad DD – Polisi ar ragdal cyfraniadau
Atodiad E – Polisi ar basio drwodd
Atodiad F – Polisi ar adolygiadau cyfraniadau
Atodiad FF– Polisi ar reoli risg salwch
Atodiad G – Polisi ar adael y gronfa

1 Pwrpas Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r Datganiad Strategaeth Cyllido

Mae'r ddogfen yma yn gosod Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, sef yr awdurdod gweinyddu. Bu Cyngor Gwynedd yn gweithio gydag actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson, i baratoi'r DSC hwn sy'n weithredol o 1 Ebrill 2026.

Mae gofyniad rheoliadol i Gyngor Gwynedd baratoi DSC. Gallwch ddarganfod mwy am y fframwaith rheoleiddio yn **Atodiad A**. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y DSC, cysylltwch â delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru.

1.1 Beth yw Cronfa Bensiwn Gwynedd?

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y CPLIL yn www.lgpsmember.org. Yr awdurdod gweinyddu sy'n rhedeg y Gronfa ar ran y cyflogwyr sy'n cymryd rhan, eu gweithwyr a phensiynwyr presennol a phensiynwyr y dyfodol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau yn **Atodiad B**.

1.2 Beth yw amcanion y strategaeth cyllido?

Amcanion y strategaeth gyllido yw:

- cymryd golwg hirdymor darbodus i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion
- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrdd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor
- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr
- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymadau pensiwn

Bydd y Gronfa yn ymgysylltu â chyflogwyr wrth ddatblygu strategaeth cyllido mewn ffordd sy'n cydbwysu awydd risg rhanddeiliaid.

1.3 Pwy mae'r DSC ar ei gyfer?

Mae'r DSC yn bennaf ar gyfer cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, oherwydd mae'n nodi sut y bydd arian yn cael ei gasglu ganddynt i fodloni ymrwymadau'r Gronfa i dalu buddion aelodau.

Mae gwahanol fathau o gyflogwyr yn cymryd rhan yn y Gronfa:

Cyrff ar yr atodlen

Cyflogwyr a nodir mewn atodlen i reoliadau CPLIL, megis cynghorau. Rhaid i gyrff ar yr atodlen roi mynediad i'r CPLIL i weithwyr os na allant gronni buddion mewn cynllun pensiwn arall, megis cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall.

Cyrff a benderfynir

Gall cyflogwyr fel cynghorau tref a phlwyf ymuno â'r CPLIL trwy benderfyniad. Os caiff penderfyniad ei basio, ni all y Gronfa wrthod mynediad. Yna mae'r cyflogwr yn penderfynu pa weithwyr all ymuno â'r cynllun.

Cyrff a ganiateir

Gall cyflogwyr eraill ymuno trwy gytundeb derbyn. Gall y Gronfa osod meini prawf cyfrannu ar eu cyfer a gallant wrthod mynediad os na chaiff y gofynion eu bodloni. Mae'r math hwn o gyflogwr yn cynnwys contractwyr sy'n darparu gwasanaethau allanol fel glanhau neu arlwyio i gorff ar yr atodlen.

Efallai y cyfeirir at rai cyflogwyr presennol fel **Cyrff Cymunedol a Ganiateir**. Mae'r rhain yn gyflogwyr sydd â chymuned o ddiddordeb gyda chyflogwr cynllun arall. Gall eraill gael eu galw'n **Gyrff Trosglwyddai a Ganiateir**, sy'n darparu gwasanaethau i gyflogwyr y cynllun. Nid yw'r termau hyn wedi'u diffinio o dan reoliadau cyfredol ond maent yn parhau i gael eu defnyddio'n gyffredin o reoliadau blaenorol.

Mae'r Bwrdd Cynghori ar y Cynllun yn cyfeirio at dair haen wahanol o gyflogwyr a all gymryd rhan yn y CPLIL, yn benodol:

- Haen 1 – Awdurdodau Lleol (gan gynnwys contractwyr sy'n cymryd rhan yn y CPLIL gyda chefnogaeth Awdurdod Lleol)
- Haen 2 – Ymddiriedolaethau'r Academi
- Haen 3 – Cyflogwyr annibynnol heb gefnogaeth trethdalwr lleol neu genedlaethol. Yn cynnwys sefydliadau addysg bellach (colegau), prifysgolion, cymdeithasau tai ac elusennau.

1.4 Sut mae'r Strategaeth Cyllido yn benodol i Gronfa Bensiwn Gwynedd?

Mae'r strategaeth gyllido yn adlewyrchu nodweddion penodol cyflogwyr y Gronfa a'i strategaeth fuddsoddi ei hun.

1.5 Pa mor aml y mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn cael ei adolygu?

Mae'r DSC yn cael ei adolygu'n fanwl o leiaf bob tair blynedd cyn y prisiad actiwaraid tair blynedd.

Gellir gwneud diwygiadau i'r DSC yn yr amgylchiadau canlynol:

- newidiadau sylweddol i strwythur budd-daliadau'r cynllun (e.e. dan arweiniad Trysorlys EM)
- ar gyngor actiwari'r Gronfa
- Newidiadau sylweddol i strategaeth fuddsoddi, neu os bu anwadalrwydd sylweddol yn y farchnad sy'n effeithio ar y DSC neu'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r DSC
- os bu newidiadau sylweddol i aelodaeth y Gronfa a/neu broffil aeddfedrwydd y Gronfa
- os bu newidiadau sylweddol neu nodedig i nifer, math, neu amgylchiadau unigol unrhyw un o'r awdurdodau cyflogi i'r fath raddau fel eu bod yn effeithio ar y strategaeth cyllido (e.e. ymadael/ailstrwythuro/methiant a allai effeithio'n sylweddol ar lif arian a/neu broffil aeddfedrwydd a/neu gyfamod)

- os bu newid sylweddol yn fforddiadwyedd cyfraniadau a/neu gryfder cyfamod ariannol cyflogwr(wyr) sy'n cael effaith ar y DSC.
- Argymhellion gan MHCLG/GAD.

Wrth gynnal adolygiadau o'r fath, dylai'r awdurdod gweinyddu ystyried:

- edrych ar brofiadau mewn perthynas â rhagdybiaethau cyllido hirdymor (o ran incwm buddsoddi ac incwm cyfraniadau a ragwelir) a chanlyniadau camau gweithredu a gymerwyd gan gyflogwyr (e.e. dyfarniadau cyflog ac ymddeoliadau cynnar)
- y goblygiadau ar gyfer y strategaeth gyllido ac, os yw'n arwyddocaol, penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd i adolygu'r DSC
- y goblygiadau sy'n deillio o'r strategaeth cyllido ar gyfer bodloni ymrwymïadau cyflogwyr unigol ac unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i'r DSB
- ymgynghori â chyflogwyr unigol yr effeithir arnynt yn benodol gan unrhyw newidiadau fel rhan annatod o'r broses fonitro ac adolygu, a sicrhau na fydd unrhyw gyfathrebu ynghylch adolygiad o reidrwydd yn arwain at newidiadau cyfradd cyfraniadau i gyflogwyr unigol ond gallai effeithio ar dderbyniadau, terfyniadau, dull o reoli risg ac asesu risg cyflogwyr.

Bydd unrhyw welliannau yn cael eu hymgyngori, eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau a'u cynnwys yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor.

Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllidog hwn yn weithredol o 1 Ebrill 2026 a disgwylir iddo aros mewn grym tan 31 Mawrth 2029 fan bellaf, oni bai bod adolygiad interim yn cael ei gynnal cyn hynny.

1.6 Adroddiad prisio actiwaraid

Mae Rheoliadau CPLIL (yn benodol Rheoliad 62) yn ei gwneud yn ofynnol i brisiad actiwaraid gael ei gynnal bob tair blynedd, lle mae cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob cyflogwr sy'n cymryd rhan yn cael eu pennu ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido hwn yn nodi'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg sy'n sail i ymarfer prisio actiwaraid 2025. Mae'r adroddiad prisio actiwaraid yn nodi 1) asesiad yr actiwari o'r sefyllfa ariannu gwasanaeth yn y gorffennol, a 2) y cyfraniadau sydd eu hangen i sicrhau cyllid llawn erbyn diwedd y gorwel amser. Mae'r dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau yn dangos y cyfraddau cyfraniadau sy'n daladwy gan bob cyflogwr (sy'n cael eu mynegi fel canran o'r gyflogres).

RHAN A – Egwyddorion Cyllido Allweddol

2 Sut mae'r Gronfa yn cyfrifo cyfraniadau cyflogwr?

2.1 Cyfrifo cyfraddau cyfraniadau

Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu pennu gan reoliadau CPLIL.

Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwr yn cael eu pennu gan ymarfer prisio actiwaraid gorfodol, ac maent yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- **cyfraniad cynradd** – cyfraniadau sy'n daladwy tuag at fuddion yn y dyfodol
- **cyfraniad eilradd** – y gwahaniaeth rhwng y gyfradd sylfaenol a chyfanswm cyfraniad y cyflogwr

Mae'r gyfradd cynradd hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau'r Gronfa.

Mae actiwari y Gronfa yn defnyddio methodoleg o'r enw Modelu Atebolrwydd Asedau i osod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. O dan y fethodoleg hon, ar gyfer cyfradd cyfraniad arfaethedig cyflogwr penodol, mae'r model yn rhagweld gwerthoedd asedau ac atebolrwydd yn y dyfodol ar gyfer y cyflogwr o dan 5,000 o efelychiadau gwahanol o'r amgylchedd economaidd yn y dyfodol. Mae gan pob efelychiad – a gynhyrchir gan fodel Gwasanaeth Senarios Economaidd (ESS) Hymans Robertson - lwybr gwahanol ar gyfer cyfraddau llog yn y dyfodol, cyfraddau chwyddiant a'r enillion buddsoddi ar wahanol ddosbarthiadau asedau. Mae'r dull hwn yn caniatáu i actiwari'r Gronfa ddeall yr ystod bosibl o ganlyniadau cyllido yn y dyfodol y gallir eu cyflawni trwy dalu'r gyfradd gyfraniad honno.

Mae'r Gronfa wedi gosod meini prawf y strategaeth gyllido ar gyfer pob cyflogwr y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ystyried bod cyfraniad cyflogwr penodol yn dderbyniol. Mae'r meini prawf strategaeth cyllido wedi'u pennu yn nhermau'r pedwar paramedr canlynol:

- **targed ar gyfer y lefel ariannu** – faint o arian y mae'r Gronfa yn ceisio ei gadw ar gyfer pob cyflogwr
- **y gorwel amser** – y cyfnod amser y mae'r cyflogwr yn anelu at gyrraedd y targed lefel ariannu targed drosto
- **y sail ariannu** – y set o ragdybiaethau actiwaraid a ddefnyddir i brisio ymrwymadau'r cyflogwr (gwasanaeth yn y gorffennol a'r dyfodol)
- **y tebygolrwydd o lwyddiant** – cyfran y senarios wedi'u modelu lle mae'r targed ar gyfer y lefel ariannu yn cael ei gyrraedd.

Er enghraifft, gallir gosod meini prawf strategaeth cyllido cyflogwr fel a ganlyn:

*Rhaid i'r cyflogwr fod ag o leiaf **80% o debygolrwydd** o gael ei **ariannu 100%** ar y **sail cyfranogiad parhaus** ar ddiwedd **gorwel cyllido** 17 mlynedd.*

Mae'r meini prawf y strategaeth gyllido a ddefnyddir gan y Gronfa wedi'u nodi yn Nhabl 2. Mae rhagor o fanylion am yr ESS ac ar y seiliau cyllido a ddefnyddir gan y Gronfa wedi'u nodi yn Atodiad D.

Gellir gosod y lefel ariannu targed yn fwy na 100% fel 'buffer' rhag profiad andwyol yn y dyfodol. Gall hyn fod yn briodol ar gyfer cyflogwyr agored tymor hir, lle gall profiad ariannu andwyol yn y dyfodol arwain at godiadau cyfraniadau yn y dyfodol.

Mae'r dull gosod cyfraddau cyfraniadau yn ystyried proffil aeddfedu yr aelodaeth wrth osod cyfraddau cyfraniadau cyflogwr. Mae'r dull a gymerir gan actiwari'r Gronfa yn helpu'r Gronfa i gyflawni'r nod o gynnal cyfradd cyfraniad priif gyflogwr mor sefydlog â phosibl.

Mae'r Gronfa yn caniatáu rhagdal cyfraniadau'r cyflogwr mewn amgylchiadau penodol. Manylir ar bolisi'r Gronfa ar ragdaliadau yn Atodiad Dd.

2.2 Cyfrifiad y gyfradd gyfraniad

Tabl 1: cyfrifo cyfradd cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr unigol neu wedi'i pwlio

Math o gyflogwr	Cyrff ar yr Atodlen a Cyrff a Benderfynir		Addysg bellach a chyrff cymunedol a ganiateir		Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir
Is-fath	Cynghorau Lleol, Heddlu a Parc Cenedlaethol Eryri	Cynghorau Plwyf a Tref	Agored i gyflogwyr newydd	Wedi cau i gyflogwyr newydd	(i gyd)
Haen SAB	Haen 1	Haen 1	Haen 3	Haen 3	Haen 1
Sail ariannu ²	Parhaus	Parhaus	Parhaus, ond gall symud i sail gadael risg isel		Parhaus, gan dybio bod yna contract cyfnod penodol yn y Gronfa
Lefel cyllido targed	100%	100%	100%		100%
Tebygolrwydd lleiaf o lwyddiant	80%	80%	80%	80%	80%
Uchafswm y gorwel amser	17 mlynedd	17 mlynedd	14 mlynedd	14 mlynedd neu oes waith gyfartalog yn y dyfodol, os yn llai	Cyfnod contract sydd yn weddill
Dull cyfradd cynradd ³	Rhaid i'r cyfraniadau fod yn ddigonol i gwrdd â chost buddion a enillir yn y dyfodol gyda'r tebygolrwydd gofynnol o lwyddiant ar ddiwedd y cyfnod amser, wedi'i fynegi fel canran o'r tâl pensiynadwy				
Cyfradd eilradd	Y gwahaniaeth rhwng cyfanswm y gyfradd gyfraniadau sy'n daladwy (a bennir yn unol â 2.1) a'r brif gyfradd. Mae addasiadau negyddol yn cael eu mynegi fel canran o'r gyflogres a gellir mynegi addasiadau cadarnhaol fel canran o'r gyflogres neu symiau ariannol (ar gyfer cyflogwyr caeedig aeddfed).				
Cyfradd cyfraniadau sefydlog?	Ia	Na	Na	Na	Na
Triniaeth gwarged	Wedi'i gwmpasu gan drefniant sefydlogi	Wedi'i gwmpasu gan algorithm cyfraniad	Wedi'i gwmpasu gan algorithm cyfraniad	Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol	Lleihau cyfraniadau drwy wasgaru'r gwarged dros weddill tymor y contract

Cydnabod cyfamod	Paramedrau sefydlogi	Addasu'r tebygolrwydd o lwyddiant	Addasu'r tebygolrwydd o lwyddiant	Addasu'r tebygolrwydd o lwyddiant	Addasu'r tebygolrwydd o lwyddiant
------------------	----------------------	-----------------------------------	-----------------------------------	-----------------------------------	-----------------------------------

¹ Bydd cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa o dan gytundeb pasio drwodd yn talu cyfradd gyfrannu fel y cytunwyd rhwng y contractwr a'r awdurdod gosod. Gweler Atodiad E am rhagor o wybodaeth am bolisi pasio drwodd y Gronfa.

² Gweler Atodiad D am ragor o wybodaeth am seiliau ariannu.

³Y gyfradd cynradd ar gyfer y gronfa gyfan yw cyfartaledd pwysol (yn ôl cyflogres) cyfraddau cynradd y cyflogwyr unigol

Mae'r Gronfa yn rheoli risgiau ariannu fel rhan o'i fframwaith rheoli risg ehangach, fel y dogfennir yn y cofrestr risg. Mae'r risgiau penodol cyllidol a nodwyd ac a reolir gan y Gronfa wedi'u nodi yn [Atodiad Ch](#) – Risgiau a Rheolaethau.

2.3 Gwneud cyfraddau cyfraniadau yn sefydlog

Mae gwneud cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog yn amcan ariannu pwysig. Lle bo'n briodol, pennir cyfraniadau gyda'r amcan hwn mewn golwg. Mae'r Gronfa yn mabwysiadu dull sefydlog o osod cyfraniadau ar gyfer rhai cyflogwyr, sydd yn cadw amrywiadau cyfraniadau o fewn ystod a bennwyd ymlaen llaw o flwyddyn i flwyddyn.

Ar ôl derbyn cyngor gan actiwari'r Gronfa, mae'r awdurdod gweinyddu o'r farn bod dull sefydlog o weithredu yn strategaeth hirdymor ddarbodus ar gyfer awdurdodau lleol y Gronfa, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Tabl 2: dull sefydlogi cyfredol	Cynghorau Lleol, Heddlu a Parc Cenedlaethol Eryri
Math o gyflogwr	
Cynnydd uchaf y cyfraniad y flwyddyn	+1.0% o'r cyflog
Lleihad uchaf y cyfraniad y flwyddyn	-1.0% o'r cyflog

Mae meini prawf a therfynau sefydlogi yn cael eu hadolygu yn ystod y broses brisio. Gall yr awdurdod gweinyddu eu hadolygu rhwng prisiadau i ymateb i newidiadau aelodaeth neu gyflogwr.

Yn ôl eu disgresiwn llwyr, gall yr awdurdod gweinyddu ganiatáu cyflymu neu ymestyn cynyddu a gostwng cyfraniadau o fewn y mecanwaith sefydlogrwydd cyfraniadau.

2.4 Cyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr hirdymor eraill

Ar gyfer cyflogwyr eraill sydd â gorwel amser tymor hwy (cyrff agored a ganiateir a chynghorau tref a phlwyf), mae'r Gronfa wedi cymhwyso algorithm at ddibenion pennu cyfraddau cyfraniadau. Mae hyn yn dod â rhywfaint o sefydlogrwydd i gyfraddau. Mae'n caniatáu gostyngiadau mewn cyfraniadau oherwydd sefyllfaoedd cyllido cryf, tra'n darparu amddiffyniad i'r Gronfa rhag profiad andwyol yn y dyfodol ac yn cydnabod yr angen am degwch rhwng cenedlaethau ynghylch y cyflymder y mae gwarged yn cael ei ddychwelyd.

Ar gyfer prisiad 2025, gellir crynhoi hyn yn fathemategol gan y fformiwla ganlynol:

Uchafu [cyfanswm cyfradd ddamcaniaethol 2025, Lleihau (cyfradd gynradd 2025 minws 3% o'r tâl, Cyfradd gyfredol minws 3% o'r tâl)]

Ile diffinnir 'cyfanswm cyfradd ddamcaniaethol 2025' fel y gyfradd gyfraniad a gyfrifir yn union yn unol â'r meini prawf y strategaeth gyllido a amlinellir yn Nhabl 1 o dan adran 2.2 uchod.

2.5 Cysylltu gyda'r strategaeth fuddsoddi

Mae'r strategaeth gyllido yn nodi sut y bydd arian yn cael ei gasglu gan gyflogwyr i fodloni ymrwymïadau'r Gronfa. Yna buddsoddir cyfraniadau, asedau ac incwm arall yn unol â strategaeth fuddsoddi a osodwyd gan yr awdurdod gweinyddol.

Mae'r strategaethau cyllido a buddsoddi wedi'u cysylltu'n agos. Rhaid i'r Gronfa allu talu buddion pan fyddant yn ddyledus – mae'r taliadau hynny'n cael eu cyflawni o gyfuniad o gyfraniadau (trwy'r strategaeth gyllido) ac enillion asedau ac incwm (trwy'r strategaeth fuddsoddi). Os bydd enillion buddsoddi neu incwm yn methu, ni fydd y Gronfa yn gallu talu buddion, felly byddai angen cyfraniadau uwch gan gyflogwyr.

Mae'r strategaeth fuddsoddi wedi'i chynllunio gan ganiatáu i'r sefyllfa gyllido gael ei bennu ar sail briodol a darbodus, gyda'r nod o gyflawni'r amcan cyllido ar gyfer pob grŵp cyflogwyr dros y gorwel amser penodol.

Mae strategaeth fuddsoddi strategol gyfredol y Gronfa ar 31 Mawrth 2025 wedi'i chrynhof yn y tabl isod.

Tabl 2 – Dyraniad asedau strategol

Dosbarth ased	Dyraniad
Ecwiti'r DU	6.0%
Ecwiti Byd-eang	27.0%
Ecwiti marchnadoedd datblygol	2.0%
Ecwiti Preifat	5.0%
Eiddo	10.0%
Isadeiledd	7.5%
Cyfalaif Naturiol	5.0%
Credyd preifat	7.5%
Credyd aml-ased	7.5%
Bondiau corfforaethol	7.5%
Bondiau dychwelyd absoliwt	12.5%
Giltiau	2.5%

2.6 A yw'r strategaeth gyllido yn adlewyrchu'r strategaeth fuddsoddi

Mae'r polisi cyllido yn gyson gyda'r strategaeth fuddsoddi. Mae disgwyliadau enillion buddsoddi yn y dyfodol yn cael eu gosod gan gyfeirio at y strategaeth fuddsoddi, gan gynnwys doethineb sy'n gyson â'r gofyniad rheoleiddiol bod cronfeydd yn cymryd 'golwg ddarbodus tymor hwy' o ymrwymadau cyllido (gweler [Atodiad A](#))

2.7 Adolygu cyfraniadau rhwng prisiau

Gall y Gronfa ddiwygio cyfraddau cyfraniadau rhwng prisiau ffurfiol, yn unol â'i pholisi ar adolygu cyfraniadau. Mae polisi'r Gronfa ar gael yn **Atodiad F**. Pwrpas unrhyw adolygiad yw sefydlu'r cyfraniadau mwyaf priodol. Gall adolygiad arwain at gynydd neu ostyngiad mewn cyfraniadau.

2.8 Beth yw pwlio?

Ar hyn o bryd nid yw'r awdurdod gweinyddol yn gweithredu pwlio cyfradd cyfraniadau ffurfiol ar gyfer mathau tebyg o gyflogwyr.

Yr unig gyflogwyr y gellir eu pwlio yw'r rhai sydd â chytundeb pasio drwodd neu fath arall o gytundeb rhannu risg gydag awdurdod gosod. Ceir manylion polisi pasio drwodd y Gronfa yn **Atodiad E**.

2.9 Disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddol

Gall cyflogwyr unigol gael eu heffeithio gan amgylchiadau nad ydynt yn hawdd eu rheoli o fewn rheolau a pholisïau DSC. Os bydd hyn yn digwydd, gall yr awdurdod gweinyddu fabwysiadu dulliau cyllido amgen fesul achos.

Yn ogystal, gall yr awdurdod gweinyddu ganiatáu mwy o hyblygrwydd i gyfraniadau'r cyflogwr os darperir sicrwydd ychwanegol. Gallai hyblygrwydd gynnwys pethau fel cyfradd cyfraniadau is, gorwel amser estynedig, neu ganiatâd i ymuno â phwl. Gall gwarant ychwanegol gynnwys bond addas, gwarant cyfreithiol rwymol gan drydydd parti priodol, neu warant dros ased.

